Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>14 CHWEFROR 2022<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>14 FEBRUARY 2022<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYD O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Thrawsnewid (a Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro).

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2020/21 YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN** (Tudalennau 23 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6 RHENT TAI CRT A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2021/22** (Tudalennau 47 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**7 YMATEB I'R HER DAI LLEOL - STRATEGAETH TAI 2022-27** (Tudalennau 57 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**8 EFFAITH RHEOLIADAU 'PUBLIC SERVICE VEHICLE ACCESSIBILITY REGULATIONS 2000' AR WERTHU SEDDI GWAG AR DRAFNIDIAETH YSGOL / COLEG** (Tudalennau 107 - 112)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**9 DEDDF RHENTU CARTREFI (FFIOEDD ETC.) (CYMRU) 2019: TREFNIADAU GWEITHREDU** (Tudalennau 113 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn rhithwir ar 24 Ionawr 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Gwasanaeth (Strategaeth Tai, Comisiynu a Pholisi) (ELl)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Mr Eryl Crump (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2021 a 13 Rhagfyr 2021.

**Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn yn gywir –**

- **29 Tachwedd, 2021**
- **13 Rhagfyr, 2021**

## 4. PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'w mabwysiadu, cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei hystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Medi 2022 a thynnwyd sylw at y newidiadau a ganlyn –

- Eitem 2 – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2020/21 sydd yn eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.
- Eitem 6 – Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau Priffyrdd fydd yn cael ei haildrefnu gyda'r dyddiad i'w gadarnhau.
- Eitemau 8 – 18 (sy'n ymwneud â gosod y gyllideb a monitro'r gyllideb) a gadarnhawyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.
- Eitem 23 – Asesiad o Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fydd yn cael ei symud o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022 i'w gyfarfod ar 21 Mawrth 2022.
- Eitem 36 i 38 – Adroddiadau Monitro Perfformiad Chwarterol sydd yn eitemau newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022.
- Eitem 39 – Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol sydd hefyd yn eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022.
- Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 – gweithredu trefniadau – eitem newydd sydd ddim ar y rhaglen waith a gyhoeddwyd ond y mae cais i'w chynnwys ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror.

**Penderfynwyd cadarnhau blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Chwefror i Medi 2022 gyda'r newid ychwanegol y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.**

## 6. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio Cyllid, adroddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlinellu cyllideb refeniw amodol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23.

Dengys y setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021 gynnydd o £456m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i gynnydd o 9.8% mewn termau arian parod. Ar gyfer Ynys Môn, y cynnydd o gymharu â'r Cyllid Allanol Cyfun yn 2021/22 yw £9.74m, neu 9.27%. Mae'r cynnydd i'w groesawu ac mae'n cynnig cyfle i'r Cyngor fuddsoddi mewn gwasanaethau am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, ond, er gwaetha'r sefyllfa gadarnhaol, mae'n rhaid rhybuddio am yr hyn a ddywed setliad dros dro 2022/23 am y blynyddoedd i ddilyn. Mae'n dangos cynnydd dangosol o 3.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2023/24, gan olygu y byddai'n bosib parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau pe byddai'r cynnydd hwnnw'n cael ei ailadrodd ar gyfer Ynys Môn, ond bydd y sefyllfa'n dechrau gwaethygu eto yn 2024/25. Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd yn cynnwys darpariaeth wedi'i hamcangyfrif ar gyfer dyfarniadau cyflog y mae elfen o ansicrwydd yn eu cylch o hyd - a phwysau staffio eraill, chwyddiant nad yw'n ymwneud â thâl, newidiadau mewn niferoedd disgyblion, ardollau (yn cynnwys Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu), costau cyllido cyfalaf a chyllidebau wrth gefn. Datblygwyd y gyllideb hefyd i gynnwys disgwyliadau ariannu gan Lywodraeth Cymru lle mae disgwyl i'r Cyllid Allanol Cyfun ariannu pwysau eraill ar gostau yn 2022/23 na



DRAFFT

fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol ar eu cyfer. Maent yn cynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal, atal digartrefedd, rheoli effaith parhaus y pandemig Covid a dyletswyddau newydd sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae mwy o fanylion amdanynt wedi'u cynnwys yn adran 4.8 yn yr adroddiad. Mae'r setliad yn rhoi cyfle i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai risgiau a materion gwasanaeth sydd wedi codi o ganlyniad i gyfnod hir o gyni pan welwyd gostyngiad mewn capasiti a darpariaeth. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r buddsoddiad arfaethedig mewn gwasanaethau, er y bydd y cynigion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach cyn mabwysiadu'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb ym mis Mawrth 2022.

Ar ôl cymryd setliad dros dro Llywodraeth Cymru a'r prif newidiadau yn y gyllideb (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor) i ystyriaeth, y man cychwyn ar gyfer cyllideb 2022/23 yw diffyg o £859k a bwriedir cyllido'r diffyg hwn trwy gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor (sy'n debygol o fod ymysg y cynnydd lleiaf yng Nghymru) a fydd yn golygu bod y gost Band D yn £1,367.46. Y gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2022/23 yw £158.365m.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y prif risgiau ariannol y mae angen tynnu sylw atynt yn y gyllideb yn cael eu crynhoi yn adran 6.5 yr adroddiad; nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gyllideb neu maent wedi'u cynnwys yn rhannol yn unig gan eu bod yn ymwneud â chostau Covid a'r posibilrwydd o golli incwm, er y gobaith yw y byddai Llywodraeth Cymru'n ymyrryd ac yn darparu cymorth pe byddai sefyllfa Covid yn gwaethygu'n sylweddol; ansicrwydd ynghylch y dyfarniad cyflog terfynol i staff; chwyddiant cyffredinol a chynnydd mewn prisiau'n effeithio ar gostau nwyddau a gwasanaethau a brynir, ond mae hyn yn cael ei liniaru'n rhannol gan y warchodaeth a ddarperir gan gontractau tymor hir; y galw am wasanaethau'n amrywio; llai o incwm grant a/neu golli incwm grant a dyletswyddau a chostau newydd yn gysylltiedig â sefydlu'r Awdurdod Iechyd Porthladd Newydd. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar lefel ranbarthol hefyd mewn perthynas â chytuno ar rai elfennau o ffioedd catrefi preswyl a gofal. Mae'r cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu gwasanaethau ar lefel 2021/22 ond wedi'i ddiweddaru i ystyried y newidiadau a'r costau sy'n hysbys yn 2022/23. Mae'r rhagolwg ar gyfer 2023/24 a thu hwnt yn fwy ansicr oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyfraddau chwyddiant, er, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ac y cyfeirir ati ym mharagraff 7.2 yr adroddiad, mae'n debygol y bydd yn bosib buddsoddi yn 2023/24 ond byddai'r cynnydd dangosol o 2.4% yn y Cyllid Allanol Cyfun yn 2024/25 yn gofyn am gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor dim ond i gwrdd â chostau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw pan graffwyd ar y cynnig cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, yn ogystal ag adborth gan y Panel Sgriwtini Cyllid, cadarnhaodd bod y Pwyllgor wedi penderfynu argymell y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith, yn cynnwys cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor, er mwyn creu cyllideb gytbwys a darbodus, ac ni chafwyd yr un bleidlais yn erbyn y cynnig, er bod dau aelod wedi atal eu pleidlais. Yn yr un modd, roedd y Pwyllgor wedi croesawu'r cyfle a rydd y setliad i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i ddod.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y Panel yn rhannu casgliadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'i fod yn barnu bod y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2022/23 yn rhesymol ac yn seiliedig ar amcangyfrifon cadarn; roedd y Panel yn cydnabod y risgiau yn gysylltiedig â'r gyllideb fel y nodir nhw yn adroddiad y Swyddog Adran 151.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r cyfle y mae'r setliad dros dro yn ei gynnig i fuddsoddi mewn gwasanaethau, rhywbeth y mae gwir ei angen ar ôl cyfnod maith o dorri

DRAFT

gwasanaethau a chyni, ac roedd yn awyddus i ailbwysleisio bod cymeradwyo'r gyllideb gychwynnol ddrafft yn benllanw proses o ddatblygu cyllideb dros gyfnod o fisoedd lawer sydd wedi cynnwys oriau o drafodaethau, dadansoddi a her. Er y cydnabuwyd bod y setliad dros dro yn un cadarnhaol, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod risg yn gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol a dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio Cyllid, bod y gofynion ychwanegol sy'n disgyn ar y Cyngor o ran cyflawni dyletswyddau fel yr Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer Caergybi yn arbennig o heriol gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yr incwm a gynhyrchir yn cwrdd â'r costau gan olygu, efallai, y bydd cost ychwanegol i'r Cyngor yn 2022/23 nad yw'n cael ei ariannu yn y gyllideb arfaethedig. Nid yw sylwadau ynglŷn â'r mater hwn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn llythyr, wedi perswadio Llywodraeth Cymru i ymrwymo i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i gwrdd â'r risg, er bod trafodaethau'n parhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m;**
- **Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46;**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.**

## 7. CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 – CYNNIG CYCHWYNNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio Cyllid, adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn amlinellu'r cynnig drafft ar gyfer Cyllideb Gyfalaf 2022/23.

Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23 yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2021. Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 yw £35.961m a bydd yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a nodir yn Nhabl 1 yn yr adroddiad. Mae'r grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng gan £677k o gymharu â'r cyllid a dderbyniwyd yn 2021/22 ac felly argymhellir defnyddio £1.681m o'r Balansau Cyffredinol er mwyn cynorthwyo i ariannu'r rhaglen arfaethedig. Mae'r rhaglen gyfalaf yn argymell gwario ar asedau cyfredol (£5.042m), prosiectau unwaith ac am byth newydd yn unol â Thabl 3 yr adroddiad, gan gynnwys uwchraddio toiledau cyhoeddus a darparu arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd (£1.432m), a phrosiectau unwaith ac am byth newydd i'w hariannu o gronfeydd wrth gefn clustnodedig, cronfeydd wrth gefn gwasanaethau a benthyca heb gymorth (£783k) - Tabl 4 yn yr adroddiad. Oherwydd bod swm sylweddol o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ariannu'r cynlluniau hyn trwy ddefnyddio benthyca heb gymorth a'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgol. Cost amcangyfrifedig y rhaglen yn 2022/23 yw £8.598m. Bydd y rhaglen arfaethedig o dan y Cyfrif Refeniw Tai, sydd wedi'i glustnodi ar gyfer rheoli incwm a gwariant yn gysylltiedig â stoc tai'r Cyngor, yn parhau i fuddsoddi mewn stoc bresennol yn ogystal â datblygu eiddo newydd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gostyngiad yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2022/23 sydd wedi arwain at ddiffyg yn y gyllideb gyfalaf ac, ar ôl ystyried yn ofalus, mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu cwrdd â'r diffyg o'r Balansau Cyffredinol gan na fyddai'n afresymol defnyddio'r balansau i gefnogi gwariant cyfalaf yn 2022/23 ac ni fyddai'n peryglu'r Balansau Cyffredinol. Er y disgwylir i'r dyraniad Grant Cyfalaf Cyffredinol gynyddu yn 2024/25, bydd sefyllfa gyffredinol y gyllideb gyfalaf yn dynnach gan olygu y bydd yn anoddach llunio rhaglen gyfalaf nad yw wedi'i chyfyngu i adnewyddu ac amnewid asedau cyfredol yn unig.



DRAFFT

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a oedd yn cyflwyno adroddiad yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor y bore hwnnw, fod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer Cyllideb Gyfalaf 2022/23 ac na chafwyd yr un bleidlais yn erbyn y cynnig. Yn yr un modd, cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid, gefnogaeth y Panel i'r gyllideb gyfalaf arfaethedig fel defnydd rhesymol o adnoddau.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y rhaglen gyfalaf a ganlyn ar gyfer 2022/23 -**

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cynlluniau 2021/22 a ddygwyd ymlaen** | **1,322** |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau** | **5,042** |
| **Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd** | **1,432** |
| **Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth (wedi'u hariannu o Gronfeydd wrth Gefn a Benthyca heb Gymorth** | **783** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **8,598** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **18,784** |
| | |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2022/23** | **35,961** |
| | |
| **Cyllidir gan –** | |
| | |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **1,486** |
| **Benthyca â Chymorth Cyffredinol** | **2,157** |
| **Balansau Cyffredinol** | **1,681** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif – Benthyca â Chymorth** | **1,168** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif – Benthyca heb Gymorth** | **5,261** |
| **Cronfa Wrth Gefn y CRT a gwarged yn ystod y flwyddyn** | **10,099** |
| **CRT – Benthyca heb Gymorth** | **6,000** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **600** |
| **Grantiau Allanol** | **4,854** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig** | **1,195** |
| **Cronfa Gyffredinol – Benthyca heb Gymorth** | **138** |
| **Cyllid 2021/22 a ddygwyd ymlaen** | **1,322** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23** | **35,961** |

## 8. YMATEB I'R HER TAI LLEOL – POLISI RHANNU ECWITI

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn ymgorffori'r Polisi Rhannu Ecwiti a ddyluniwyd i gynnig cyfle i Brynwyr Tro Cyntaf gael benthyciad ecwiti i'w galluogi i brynu tŷ addas yn eu hardal leol na fyddai'n fforddiadwy iddynt fel arall.

Fel rhan o amrywiaeth o fentrau i gynnig tai fforddiadwy, mae'r Gwasanaethau Tai yn bwriadu cyflwyno Polisi Rhannu Ecwiti fydd yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gallu prynu eu cartref ar y farchnad agored a'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i Dai Cymdeithasol.



DRAFT

Mae prynu cartref yn parhau i fod tu hwnt i allu nifer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau uchel eiddo o gymharu ag incwm lleol a'r blaendal angenrheidiol. Mae'r Polisi Rhannu Ecwiti yn cynorthwyo i gyflawni dau amcan a nodwyd yn Strategaeth Dai'r Gwasanaeth sef – yn gyntaf datblygu'r tai cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol ac – yn ail, gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau, a'r weithred yw cynnig eiddo rhent cymdeithasol, rhenti canolig, hunanadeiladu a chymorth i brynwyr tro cyntaf.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Polisi Rhannu Ecwiti yn un o'r opsiynau y mae'r Gwasanaeth yn eu defnyddio i ymateb i'r her tai lleol ac i gynorthwyo teuluoedd lleol i gael mynediad at dai fforddiadwy i'w prynu, ac y bydd y polisi'n ehangu ystod y tai fforddiadwy y gellir eu cynnig o ran eiddo presennol ac eiddo y mae'r Cyngor yn eu hadeiladu. Ym mis Rhagfyr 2021 roedd 458 o ymgeiswyr wedi cofrestru ar gyfer eiddo fforddiadwy ar wefan Tai Teg ac roedd 260 ohonynt yn dymuno prynu eiddo fforddiadwy ar Ynys Môn.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r Polisi Rhannu Ecwiti fel ychwanegiad cadarnhaol at yr amrywiaeth o gynlluniau y mae'r Gwasanaethau Tai yn eu datblygu i ymateb i'r her tai lleol a hefyd fel defnydd adeiladol o Bremiwm y Dreth Gyngor sy'n cael ei ddefnyddio i ariannu'r cynlluniau hyn.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Rhannu Ecwiti.**

### 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

### 10. YMATEB I'R HER TAI LLEOL – TIR GER YSBYTY PENRHOS STANLEY, CAERGYBI

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu 23 o dai newydd ar dir ger Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi a fydd yn cael eu cynnig fel tai fforddiadwy i drigolion lleol eu prynu neu eu rhentu mewn ymateb i'r her tai lleol.

Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith o leoliad a gosodiad y datblygiad arfaethedig a bod yr angen am y tai hyn yng Nghaergybi wedi'i gadarnhau gan y gofrestr tai fforddiadwy, Tai Teg. Byddai'r cynllun yn cael ei ariannu ar sail y model ariannol a ddefnyddir i asesu hyfywedd datblygiadau tai ac y mae'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ei gymeradwyo ar gyfer pob datblygiad unigol, gyda'r nod o fedru adeiladu tai newydd hynod o effeithlon. Yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd, byddai amserlen y datblygiad yn unol â'r amlinelliad cyffredinol yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r datblygiad o 23 tŷ newydd fydd ar gael i drigolion lleol fel tai fforddiadwy i'w prynu neu eu rhentu mewn ymateb i'r her tai lleol presennol, ar dir ger Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 14 Chwefror 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd.  Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2022 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2022** | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21** | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>8 Mawrth 2022 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2022 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 6 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 7 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 8 | **Ffioedd a Thaliadau 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |

Tudalen 12

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 10 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 11 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 12 | **Cyllideb Gyfalaf 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Polisi Cymorth Dewisol at y Dreth Gyngor** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 14 | **Estyniad i ddarpariaeth Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| 15 | **Cymeradwyo Cyflwyniad Prosiect yr Ynys i'r Gronfa Godi'r Gwastad** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>3 Mawrth 2022 | |
| | | | | | | | |
| 16 | **Cynllun Newid Hinsawdd** | | Prif Weithredwr | Dylan Williams<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

**Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022**

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Isadeiledd Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Mawrth 2022 | |
| 18 | **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>8 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Mawrth 2022 | Cyngor Llawn<br><br>10 Mawrth 2022 |
| 19 | **Tai Gofal Ychwanegol – De'r Ynys** | | Gwasanaethau Cymdeithasol / Tai | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Llinos Medi<br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>28 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Mawrth 2022 | |
| 20 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni: Achos Busnes Ysgol y Graig Estynedig** | | Dysgu | Rhys H Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 23 | **Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022<br>I'w gadarnhau | |
| 24 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol 15 Chwefror 2022<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| **Ebrill 2022** | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2022 | |
| **Mai 2022** | | | | | | | |
| 27 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2022** | | | |
| 28 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22** | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr | | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2022 | |
| | | | | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 30 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 31 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 33 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| **Gorffennaf 2022** | | | | | | | |
| 34 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2022 | |

Tudalen 19

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2022** | | | | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 36 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 37 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 38 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2022

Diweddarwyd 4 Chwefror 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 39 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 40 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Dyddiadau i'w cadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| | | | | **Hydref 2022** | | | |
| 41 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2022** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Stad Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2020/21** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Williams (Adnoddau)**<br>**Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)**<br>**Y Cynghorydd R Meirion Jones (Dysgu)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad;**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Bethan Owen**<br>**(01248) 752663**<br>**BethanOwen2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2020/21 (Atodiad A).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

- Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael oherwydd mae'n ofyniad gan y Comisiwn Elusennol fod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan y corff cyfrifol, sef y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Amherthnasol. Yr unig benderfyniad sydd ei angen yw derbyn cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ac nid oes unrhyw effaith ar anghenion yr Ynys yn y tymor hir. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Nid yw'n uniongyrchol berthnasol, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu cyllid trwy'r 5 ysgol uwchradd a thrwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol)** | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac ymgorfforwyd unrhyw sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA a byddai unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod yr UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Archwiliwr Allanol ac mae eu hadroddiad yn ffurfio rhan o'r cyfrifon. |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2020/21

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad Diweddaru Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Pwyllgor Gwaith, 28 Hydref 2019 (eitem 13)

**STAD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Yn yr adroddiad hwn, ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

**1.2** Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad i Aelodau ynghylch y camau a gymerwyd i ddosbarthu mwy o gyllid yr Ymddiriedolaeth i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

### 2.1.1. Stad Elusennol David Hughes

Mae'r gwaddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi, a reolir gan Reolwyr Cronfa Buddsoddi BlackRock. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddigyswllt, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sydd wedi ei rhannu'n ddwy gronfa benodol.

### 2.1.2. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Yn ogystal â'r incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r Ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan BlackRock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Pwrpas y gronfa yw darparu cymorth ariannol i ddisgyblion hŷn y 5 ysgol uwchradd er mwyn iddynt gwblhau eu cyrsiau.

### 2.1.3. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r elfen hon o'r Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae'r gronfa i'w defnyddio i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu un neu fwy o'r 5 ysgol uwchradd am gyfnod o ddwy flynedd ac y mae angen cymorth ariannol arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

### 2.2 Statws Cyfreithiol

**2.2.1.** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau hynny wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**2.2.2.** Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol:-

- Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc;
- Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, pennu rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Mae awdurdod mewn perthynas â phenderfynu faint o gyllid a ddyrennir i'r tri chynllun bob blwyddyn (o 2019/20 ymlaen) wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a bydd yn ddibynnol ar faint o warged a gynhyrchir gan y gronfa;
- Mae'r awdurdod i lofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn ar ôl cwblhau archwiliad allanol hefyd wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151;
- Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. DEFNYDD O'R GRONFA YN YSTOD 2020/21

**3.1** Ym mis Hydref 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm unwaith ac am byth o £55,000 i bob ysgol uwchradd i gyllido costau Anogwyr Dysgu ym mhob ysgol. Byddai'r Anogwyr Dysgu yn cefnogi disgyblion hŷn oedd yn dilyn cyrsiau TGAU a Lefel A. Mater i bob ysgol fyddai penderfynu dros ba gyfnod o amser i ddefnyddio'r cyllid. Byddai'r gost yn cael ei gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 1/3 gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r balans o £235,872 (ar 1 Ebrill 2020). Ceir mwy o fanylion am y defnydd a wnaed o'r dyraniadau hyn yn 2020/21 ym mharagraff 4 isod.

**3.2** Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm ychwanegol o £8,000 fesul ysgol uwchradd i roi grantiau i gynorthwyo myfyrwyr dan anfantais ariannol i sicrhau lleoedd mewn Colegau a Phrifysgolion a / neu helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol i ddilyn cyrsiau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau ar sail eu meini prawf asesu. Roedd cyfanswm y gost, sef £40,000, i'w gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 2/3 a oedd â balans o £151,216 (ar 1 Ebrill 2020). Ceir manylion am y defnydd a wnaed o'r cyllid hwn yn 2020/21 ym mharagraff 5 isod.

**3.3** Yn ogystal, byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweinyddu cynllun ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr dan anfantais ariannol er mwyn iddynt ddilyn cyrsiau Prifysgol neu Goleg trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL 2020/21

### 4.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

**4.1.1.** Cynhyrchodd y Stad £129,018 drwy renti ar eiddo ac ailgodi tâl am drethi dŵr. Cynhyrchwyd £5,158 drwy incwm arall, difidendau a llog ar fuddsoddiadau. Gwariwyd £71,732 ar waith atgyweirio a chynnal a chadw, gwasanaethau proffesiynol a darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Gwariwyd £14,807 ar gostau gweinyddol rheoli eiddo a chostau cyfrifeg ac archwilio. Canlyniad hyn yw bod £47,637 ar gael i'w ddosbarthu, gyda £11,909 yn cael ei dalu i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion, a'r £35,727 sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach.

**4.1.2.** Mae swm o £26,194 wedi'i godi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel colled ar Fuddsoddiadau.

**4.1.3.** Gwerth y Stad ar 31 Mawrth 2021 oedd, £4,276,461, sydd yn cynnwys gwerth yr eiddo £4,032,900, buddsoddiadau a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc £162,110 ac asedau cyfredol net o £81,451. Mae gwerth y Stad £26,194 yn uwch nag ar 31 Mawrth 2020.

### 4.2 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach (Cronfeydd Cyfyngedig)

**4.2.1.** Cynhyrchodd cronfa'r Ymddiriedolaeth £3,642 o incwm buddsoddi a throsglwyddwyd £10,681 i'r Ymddiriedolaeth o Stad Elusennol David Hughes.

**4.2.2.** Defnyddiwyd £108,173 ar gyfer dibenion elusennol (gweler paragraffau 5 a 6 isod).

**4.2.3.** Gostyngodd gwerth cyffredinol yr Ymddiriedolaeth o £389,799 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £339,347 ar 31 Mawrth 2021. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc o £113,215 ac arian parod yng nghyfrifon banc o £226,132.

**4.2.4.** Gwerth y Gronfa 1/3 ar 31 Mawrth 2021 oedd £166,618 a gwerth y Gronfa 2/3 ar yr un dyddiad oedd £172,729.

## 5. ANOGWYR DYSGU (Dyrannwyd o'r Gronfa 1/3)

**5.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2019 i ganiatáu defnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gostau Anogwyr Dysgu yn y 5 ysgol uwchradd, dyrannwyd swm o £55,280 i bob ysgol i'w ddefnyddio i'r diben hwn. Dengys y tabl isod y gwariant a gafwyd gan bob ysgol yn ystod 2020/21:-

| Ysgol | Swm a ddyrannwyd cyn 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Swm a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn 2020/21 | Swm a ddyrannwyd o 2020/21 | Balans ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | | £ |
| Ysgol Syr Thomas Jones | 55,280 | 53,909 | (6,601) | 2,860 | 50,168 |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 55,280 | 46,817 | (43,924) | 2,860 | 5,753 |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 55,280 | 22,826 | (22,826) | 2,860 | 2,860 |
| Ysgol David Hughes | 55,280 | 56,160 | (25,370) | 2,860 | 33,650 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 55,280 | 56,160 | 0 | 2,860 | 59,020 |
| **CYFANSWM** | **276,400** | **235,872** | **(98,721)** | **14,300** | **151,451** |

## 6. GRANTIAU A DDYRANNWYD I FYFYRWYR (Dyrannwyd o'r Gronfa 2/3)

**6.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2019 i ofyn i'r 5 ysgol uwchradd dderbyn cyfrifoldeb am weinyddu'r grantiau, dyfarnwyd swm cychwynnol o £8,560 i bob ysgol ei ddosbarthu. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, nid oedd yr ysgolion mewn sefyllfa i wahodd ceisiadau yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21 ac, o ganlyniad, ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau.

**6.2** Ar ôl trafod gydag Archwilydd y cyfrifon, cytunwyd, at ddibenion y cyfrifon, y dylid ystyried y cyllid a ddosbarthwyd i ysgolion fel gweithgareddau elusennol at ddibenion yr Ymddiriedolaeth.

**6.3** Yn ystod 2020/21, dyfarnwyd y cyntaf o'r ysgoloriaethau newydd a oedd yn cael eu cynnig trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda phedwar cyn ddisgybl yn derbyn £500 yr un. Rhoddwyd grant o £7,452 hefyd i gyn ddisgybl i ganiatáu iddynt gwblhau eu haddysg uwch.

**6.4** Mae'r balans o £172,729 ar gael i'w ddosbarthu, naill ai trwy'r ysgolion neu drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## 2020/21

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**

**525254**

**CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwilwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol | 9-15 |

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

### MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Elusen:**

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr. Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

**STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI**

**Dogfen Lywodraethu:**

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, pwerau a'r amodau y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithredu arnynt.

**Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:**

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

**Strwythur y Sefydliad:**

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:-

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Dysgu Gydol Oes yr awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:-

- Prif Weithredwr – Annwen Morgan
- Dirprwy Brif Weithredwr – Dylan Williams
- Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

**Partïon Cysylltiedig:**

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli Risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

**Nodau ac Amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes, Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu, neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod tri chynllun gyda'r bwriad o gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol.

**Dyrannu Grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Gall hyn fod drwy daliadau a wneir i bob ysgol uwchradd neu drwy gynllun ysgoloriaeth i'w weinyddu gan y 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' i fyfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Budd Cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

**LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD**

**Gweithgareddau elusennol:**

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r elusen wedi bod mewn cyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n heneiddio. Bydd ymgymryd â'r cyfnod hwn o atgyfnerthu yn golygu y bydd asedau'r elusen yn gallu darparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w fuddiolwyr yn y dyfodol. I'r pwrpas hwn, mae'r elusen wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith atgyweirio ac adnewyddu ar Ystâd David Hughes er mwyn dod â nifer o'r adeiladau fferm i gyflwr mwy addas. Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon, mae'r elusen bellach mewn sefyllfa i gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y blynyddoedd i ddod.

I'r perwyl hwn mae'r elusen bellach yn dyrannu cyllid i bob un o ysgolion uwchradd yr Ynys. Er mwyn cynorthwyo disgyblion presennol, cynigiwyd hyd at £56k i bob ysgol i gyllido cost Anogwyr Dysgu. Rhoddwyd hefyd £8,560 i bob ysgol i'w galluogi i gynorthwyo myfyrwyr sydd dan anfantais ariannol i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a/neu helpu i brynu llyfrau ac offer sy'n ofynnol i fynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod 2020/21, dyfarnwyd y cyntaf o'r ysgoloriaethau newydd a gynigir trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a derbyniodd pedwar cyn-ddisgybl swm o £500 yr un. Rhoddwyd grant o £7,452 hefyd i gyn-ddisgybl i'w alluogi i gwblhau ei addysg uwch.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

**Perfformiad Ariannol:**

Cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau roedd gan y Gronfa Waddol incwm net o £47,637, ond roedd gan yr elusen ostyngiad mewn cronfeydd cyffredinol o £68,803 yn ystod y flwyddyn wrth iddi roi rhoddion sylweddol i ysgolion uwchradd gan ddefnyddio arian parod a oedd wedi cronni wedi blynyddoedd lle dyfarnwyd dim ond ychydig o grantiau. Serch hynny, mae gwerth buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu gan bron i £1.532m.

O ganlyniad, cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2021 oedd £4,616,808, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

**Prif ffynonellau cyllido:**

Prif ffynonellau cyllido'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

**Polisi ac amcanion buddsoddi:**

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi bod angen buddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:**

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

**DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a, gan hynny, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr Ymddiriedolaeth:

| | |
|---|---|
| **Mr R Marc Jones FCPFA** | **Dyddiad** |
| **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** | |

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 a nodir ar dudalennau 7-15.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan Adran 145 o Ddeddf 2011 ac, wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan Adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:-

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________

**Brian Hughes FCA**
**A. Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, De Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

| | | | | 31.3.2021 | 31.3.2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig** £ | **Cronfeydd Waddol** £ | **Cyfanswm Cronfeydd** £ | **Cyfanswm Cronfeydd** £ |
| **Incwm a Gwaddoliadau o:** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 3,642 | 134,176 | 137,818 | 136,793 |
| Cyfanswm Incwm | | 3,642 | 134,176 | 137,818 | 136,793 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (71,732) | (71,732) | (75,431) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | (108,173) | - | (108,173) | (87,729) |
| Costau Cefnogi | 5 | - | (14,807) | (14,807) | (14,336) |
| Cyfanswm Gwariant | | (108,173) | (86,539) | (194,712) | (177,496) |
| | | | | | |
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (104,531) | 47,637 | (56,894) | (40,703) |
| Taliad o 25% o incwm net i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 6 | - | (11,909) | (11,909) | (10,681) |
| Trosglwyddiad o'r incwm Gwaddol Net sy'n weddill i'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach | | 35,728 | (35,728) | - | - |
| Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (68,803) | - | (68,803) | (51,384) |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 7 | 18,351 | 1,513,294 | 1,531,645 | (32,700) |
| Incwm / (Gwariant) Net | | (50,452) | 1,513,294 | 1,462,842 | (84,084) |
| | | | | | |
| Symudiad Net mewn Cronfeydd | | (50,452) | 1,513,294 | 1,462,842 | (84,084) |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 389,799 | 2,763,167 | 3,152,966 | 3,237,050 |
| Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd | | 339,347 | 4,276,461 | 4,615,808 | 3,152,966 |

## MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2021 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2020 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 113,215 | 162,110 | 275,325 | 230,780 |
| Eiddo Buddsoddi - Ystâd David Hughes | 7b | - | 4,032,900 | 4,032,900 | 2,545,800 |
| Cyfanswm Asedau Sefydlog | | 113,215 | 4,195,010 | 4,308,225 | 2,776,580 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 67,407 | 67,407 | 64,828 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 226,132 | 33,214 | 259,346 | 328,207 |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 226,132 | 100,621 | 326,753 | 393,035 |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | - | (19,170) | (19,170) | (16,649) |
| Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net | | 226,132 | 81,451 | 307,583 | 376,386 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net | | 339,347 | 4,276,461 | 4,615,808 | 3,152,966 |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 4,276,461 | 4,276,461 | 2,763,167 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 339,347 | - | 339,347 | 389,799 |
| Cyfanswm Cronfeydd Elusennol | | 339,347 | 4,276,461 | 4,615,808 | 3,152,966 |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig:

**Mr R Marc Jones FCPFA** **Dyddiad**

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

### Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

### Adnoddau a dderbyniwyd

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

### Adnoddau a wariwyd

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

### Costau cynhyrchu cronfeydd

Mae costau cynhyrchu cronfeydd yn cynnwys costau rheoli buddsoddiadau.

### Eiddo buddsoddi

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

### Trethiant

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

### Treth ar Werth

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn. Felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

### Strwythur y Gronfa

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy gyfyngedig.

### Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae’r incwm sy’n weddill yn ffurfio Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, sy’n cael ei rhannu’n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o’r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae’r ddwy ran o dair sy’n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a’r colledion net sy’n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi’u gwireddu**

Mae’r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi’u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Nid yw enillion wedi’u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi’u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

**2. INCWM BUDDSODDI**

| **Incwm Buddsoddi** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.21 £** | **Cyfanswm 31.3.20 £** |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 125,994 | 125,994 | 123,071 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 3,024 | 3,024 | 3,429 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | 100 | 100 | 1,600 |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 3,491 | 5,003 | 8,494 | 6,824 |
| Llog arall | 151 | 55 | 206 | 1,869 |
| Cyfanwm Incwm Buddsoddi | 3,642 | 134,176 | 137,818 | 136,793 |

### 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| Costau Rheoli Buddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Stâd David Hughes | - | (63,277) | (63,277) | (74,023) |
| Taliadau Dŵr | - | (3,024) | (3,024) | (1,000) |
| Gwasanaethau Proffesiynol | - | (407) | (407) | (1,780) |
| Costau eiddo eraill | - | - | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | - | (5,024) | (5,024) | 1,372 |
| Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiadau | - | (71,732) | (71,732) | (75,431) |

### 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| Gweithgareddau Elusennol | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau addysgol a ddyfarnwyd | (9,452) | - | (9,452) | - |
| Grantiau i ysgolion - annogwyr dysgu | (98,721) | - | (98,721) | (44,929) |
| Grantiau i ysgolion - cymorth tuag at addysg uwch | - | - | - | (42,800) |
| Cyfanswm Gwariant Elusennol | (108,173) | - | (108,173) | (87,729) |

Mae'r grantiau Addysg a ddyfarnwyd yn cynnwys pedwar ysgoloriaeth o £500 a ddyfarnwyd i gyn-ddisgyblion trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac un grant o £7,452 a ddyfarnwyd i gyn-ddisgybl i'w alluogi i gwblhau ei gwrs Addysg Uwch.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

### 5. COSTAU CEFNOGI

| Costau Cefnogi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (10,702) | (10,702) | (10,103) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | - | (3,175) | (3,175) | (3,303) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | - | (930) | (930) | (930) |
| Cyfanswm Costau Cefnogi | - | (14,807) | (14,807) | (14,336) |

## 6. DOSBARTHU INCWM NET Y GRONFA WADDOL

Mae 25% o incwm net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau'r gronfa Waddol i'w dalu i elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion. Mae'r gweddill yn cael ei rannu rhwng y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach gyfyngedig ar sail 1/3 a 2/3:-

| Dosbarthu Incwm Net y Gronfa Waddol | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | 47,637 | 42,725 |
| Talu 25% i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 11,909 | 10,681 |
| Trosgwlyddo 25% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 11,909 | 10,681 |
| Trosgwlyddo 50% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 23,819 | 21,363 |

## 7. BUDDSODDIADAU

| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Enillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | 18,351 | 26,194 | 44,545 | (32,700) |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | 1,487,100 | 1,487,100 | - |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net | 18,351 | 1,513,294 | 1,531,645 | (32,700) |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFENWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 94,864 | 135,916 | 230,780 | 366,696 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | 18,351 | 26,194 | 44,545 | (32,700) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 113,215 | 162,110 | 275,325 | 230,780 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Elusennau BLK Charities UK gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad. Eu gwerth hanesyddol yw £67,029.

**b. EIDDO BUDDSODDI**

| Eiddo Buddsoddi | 31.3.21<br>£ | 31.3.20<br>£ |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad ar 1 Ebrill | 2,545,800 | 2,545,800 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| Amhariad | - | - |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | 1,487,100 | - |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 4,032,900 | 2,545,800 |

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 13 o anheddau fferm ac un darn o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,140.68 acer. Er mwyn gwneud y mwyaf o incwm yn y dyfodol, mae Tir Graiglwyd wedi'i ymgorffori ym mân-ddaliad Canol Rhos yn awr. Gwariwyd cyfanswm o £63k ar atgyweirio a chynnal a chadw eleni. Ar ôl cwblhau'r rhaglen adnewyddu, y nod yw cyfyngu gwariant atgyweirio a chynnal a chadw i gyllideb o £50k y flwyddyn.

Erbyn hyn, mae annedd Tŷ Coch yn cael ei brisio fel Ased sy'n cael ei ddal i'w Werthu, a disgwylir iddo gael ei werthu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Prisiwyd yr Ystâd ym mis Mawrth 2021 ar sail defnydd presennol gan David Ellis MRICS, Prisiwr Ymgynghorol Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a chyfanswm y gwerth oedd £4,032,900.

Commented [EGW1]:

**8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

| Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.3.21<br>£ | 31.3.20<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 106,526 | 98,922 |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (39,119) | (34,094) |
| Cyfanswm Dyledwyr | 67,407 | 64,828 |

Penderfynwyd yn 2017/18 y byddai'n ddarbodus creu darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol oedd wedi cronni. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid wedi cynyddu'n ddiweddar, gyda rhai llwyddiannau.

**9. ARIAN YN Y BANC**

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| Arian yn y Banc | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3<br>£ | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3<br>£ | Stâd Elusennol David Hughes<br>£ | Cyfanswm 31.3.21<br>£ | Cyfanswm 31.3.20<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y Banc | 89,866 | 136,266 | 33,214 | 259,346 | 328,207 |
| Adneuon Banc | 89,866 | 136,266 | 33,214 | 259,346 | 328,207 |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.21 £ | Cyfanswm 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | - | (19,170) | (19,170) | (16,649) |
| Cyfanswm Credydwyr | - | (19,170) | (19,170) | (16,649) |

## 11. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

**a.**

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 1.4.20 £ | Symudiad Net mewn Cronfeydd £ | 31.3.21 £ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 238,583 | (71,965) | 166,618 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 151,216 | 21,513 | 172,729 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 389,799 | (50,452) | 339,347 |
| Stâd Elusennol David Hughes | 2,763,167 | 1,513,294 | 4,276,461 |
| Cronfeydd Gwaddol | 2,763,167 | 1,513,294 | 4,276,461 |
| | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 3,152,966 | 1,462,842 | 4,615,808 |

**b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:-**

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Enillion a Cholledion £ | Symudiad mewn Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 2,430 | (98,721) | 11,909 | 12,417 | (71,965) |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 1,212 | (9,452) | 23,819 | 5,934 | 21,513 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 3,642 | (108,173) | 35,728 | 18,351 | (50,452) |
| Stâd Elusennol David Hughes | 134,176 | (98,448) | (35,728) | 1,513,294 | 1,513,294 |
| Cronfeydd Gwaddol | 134,176 | (98,448) | (35,728) | 1,513,294 | 1,513,294 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 137,818 | (206,621) | - | 1,531,645 | 1,462,842 |

## 12. CYDNABYDDIAETH A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler Nodyn 13 (Datgeliadau Parti Perthynol) mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 13. DATGELIADAU PARTI PERTHYNOL

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £10,702 (£10,103 yn 2019/20) gan y Cyngor i weinyddu Ystâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £3,175 (£3,303 yn 2019/20) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £13,877.

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **14 Chwefror 2022** |
| Pwnc / Testun: | **Rhent Tai CRT a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2021/22** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Darren Gerrard, Rheolwr Busnes Adran Dai**<br>**01248 752265**<br>**dkghp@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o'r cynydd o 3.1% ar lefelau rhenti cymdeithasol gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2022/23 fel y nodir isod: -

**A1** cymeradwyo'r cynnydd rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 51 wythnos.

**A2** cymeradwyo cynnydd o 2.25% + £2.00 yr wythnos yn yr holl renti sydd islaw'r bandiau rhent targed er mwyn parhau i weithio tuag at gwrdd â'r rhent targed.

**A3** cymeradwyo cynnydd o 2.25% yn yr holl renti sydd ar darged.

**A4** cymeradwyo bod y rhent ar gyfer yr 226 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.

**A5** cymeradwyo cynnydd o 27c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.

**A6** cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

**Rhesymau**

## 1.0 Cefndir

**1.1** Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i glustnodi'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdod Lleol.

**1.2** Ar 29 Rhagfyr 2021, derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau, gan fod mynegai prisiau defnyddwyr (MPD) am fis Medi 2021 yn syrthio tu allan i'r ystod o 0% i 3%, y Gweinidog sy'n gyfrifol am Dai fydd yn penderfynu ar y newid priodol ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2022/23. Mae'r Gweinidog wedi penderfynu y dylai pob Awdurdod Lleol ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr (MPD) yn unig gyda gwerth MDP ym mis Medi 2021 yn 3.1%.

**1.3** Yn ystod y blynyddoedd blaenorol mae'r Cyngor wedi dilyn y dull o godi lefelau rhenti drwy ddefnyddio 'Bandau Targed Rhent' ond ataliwyd y dull hwn y llynedd ac mae'n parhau am eleni ar yr amod nad yw'r incwm rhent blynyddol a gesglir yn cynyddu o swm mwy na y cynnydd CPI o 3.1% a ddyfarnwyd.

## 2.0 Cynnydd rhent ar gyfer tenantiaid Ynys Môn

**2.1** Gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu atal y Bandiau Rhent Targed eto ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, penderfynir darparu cynnydd i'r holl denantiaid sydd ar rent targed neu islaw hyd at y trothwy blynyddol o 3.1%. Os byddwn yn cymhwyso hyn i'r codiad rhent ac yn casglu dros 51 wythnos i gymryd yr wythnos ddi-rent i ystyriaeth dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu tua £574k o incwm rhent blynyddol ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd hwn.

**2.2** Gan ddefnyddio'r ffigyrau ar gyfer casglu dros 51 wythnos, bydd y cynnydd rhent arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn gynnydd wythnosol o £2.99 ar gyfartaledd. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £96.51 i £99.50.

**2.3** Yn ogystal, mae'r lefel hon o gynnydd rhent yn cael ei defnyddio fel y model ar gyfer y Cynllun Busnes Tai. Os na ddilynir y dull hwn, efallai y bydd angen dulliau amgen i ariannu'r cynllun busnes.

**2.4** Er mwyn cynnyddu rhent blynyddol yn deg a chyfartal ymhlith tenantiaid ac i sicrhau nad eir dros y trothwy cynnydd blynyddol uchaf, cyfrifir y cynnydd trwy 'Rhent Cyfredol + 2.25%' ar gyfer tenantiaid sydd ar rent targed ac ar

gyfer y tenantiaid sy'n sylweddol is na'r band rhent targed, bydd £2.00 ychwanegol yr wythnos yn cael ei ychwanegu. Ni fydd tenantiaid sy'n uwch na'r band rhent targed yn derbyn cynnydd. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at gyflawni cydgyfeiriant rhent gyda darparwyr tai cymdeithasol eraill.

1) Ar gyfer y 1664 o eiddo y mae eu rhenti'n is na'r bandiau rhent targed, bydd cynnydd o 2.25% + £ 2.00 yr wythnos. Mae ystod y cynnydd wythnosol rhwng £3.70 - £4.65 yr wythnos.
2) Ar gyfer 1996 o'r eiddo lle mae'r eiddo ar y rhent targed presennol, bydd cynnydd o 2.25% yn cael ei weithredu. Bydd hyn yn rhoi cynnydd wythnosol rhwng £1.60c a £2.88c.
3) Ar gyfer y 226 eiddo lle mae'r rhenti presennol yn uwch na'r rhent targed, rydym yn cynnig peidio â gwneud unrhyw gynnydd i'r rhenti hyn nes eu bod yn cyd-fynd â'r rhent targed.

**2.5** Mae gan y Gwasanaeth Tai Swyddogion Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i roddi cyngor i denantiaid a fyddai yn gwynebu unrhyw galedi ariannol o ganlyniad i weithredu'r cynydd hyn yn eu costau rhent wythnosol.

**2.6** Bydd y polisi rhent yn cynhyrchu incwm rhent blynyddol o oddeutu £19.7m ar gyfer y CRT yn ystod 2022/23.

**2.7** Wrth ailosod tai gwag, cynigir y bydd y rhent yn cael ei bennu yn unol â'r polisi cynnydd rhent y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd ataliad presennol y rhent targed a fydd yn dileu cymhlethdod y codiadau trosiannol.

## 3.0 Taliadau Gwasanaeth

**3.1** Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2022/23 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2020/21 ac fe'u rhennir yn gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod mwyafrif y costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol.

**3.2** Mae rhan fwyaf o'r costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi lleihau o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Bydd oddeutu £201k o incwm yn cael ei gynhyrchu ganddynt.

**3.3** Y taliadau wythnosol arfaethedig ar gyfer 2022/2023, yn seiliedig ar 51 wythnos, yw:

Cynnal lifftiau - £0.33 - £2.13
Glanhau ardaloedd cymunedol - £2.83 – £7.07
Larymau Tân ac Offer Tân - £0.76
Systemau Mynediad - £0.46

Taliadau Carthffosiaeth - £3.48
Gwresogi a Goleuo ardaloedd cymunedol - £0.84
Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.24
Paentio ardaloedd cymunedol - £0.08 - £1.06
Cynnal a Chadw Tir (Eiddo Domestig) - £5.75 (tâl 6 mis)
Cynnal a Chadw Tir (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau rheoli ar 15% o bob tâl gwasanaeth,

**3.4** Ar hyn o bryd mae 61 o lesddeiliaid y codir arnynt am wasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm blynyddol ychwanegol o oddeutu £7k**.**

**4.0 Garejis**

**4.1** Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw ganllawiau ar sut i gynyddu rhenti garejis. Felly mae'r Cyngor yn cynnig cynnydd o 27c yr wythnos sy'n cyfateb i gynnydd o 3.1% (MPD). Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £8.55 yr wythnos i £8.82 a bydd yn cynhyrchu incwm o £247k ar ôl tynnu garejis gwag o'r ffigyrau. Ar 7ed Ionawr 2022 roedd 214 o garejis gwag**.**

**5.0 Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol**

**5.1** Ar hyn o bryd ni fydd 2765 o denantiaid y Cyngor (72%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r taliadau gwasanaeth, oni bai eu bod wedyn yn gymwys i gael budd-dal oherwydd y cynnydd.

**5.2** Oherwydd effaith mesurau Diwygio Budd-daliadau Lles y Llywodraeth a hefyd effaith y pandemig, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg felly wedi cynyddu i £295,500 (1.5%) ar gyfer 2022/23 gan ein bod yn disgwyl y bydd dyledion yn cynyddu pan fydd yn rhaid i denantiaid gwrdd â chyfran uwch o'r rhent eu hunain.

**5.3** Mae gan y Gwasanaethau Tai dri Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i denantiaid ynghylch materion cynhwysiant ariannol gyda ffocws cryf ar gynyddu gallu ariannol a sgiliau cyllidebu fel y gall tenantiaid reoli eu cyllid a chael mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd. Datblygwyd cysylltiadau hefyd i wella arferion gwaith ar lefel strategol a gweithredol gyda phartneriaid mewnol ac allanol fel Canolfan J E O'Toole, CAB, Cymunedau'n Gyntaf Môn, Gofal a Thrwsio, Age Cymru a chwmnïau cyfleustodau.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Fe wnaethom ystyried yr opsiwn o gynnydd rhent o 3.1% i'r holl denantiaid ond ystyriwyd bod hyn yn annheg i'r tenantiaid a oedd ar hyn o bryd ar rent a oedd yn uwch na'r targed.

Felly, penderfynwyd cymhwyso cynnydd o 2.25% i denantiaid sydd ar darged gyda £2.00 ychwanegol yr wythnos i'r tenantiaid o dan y bandiau rhent targed.

Byddai'r fformiwla hon yn cronni i gyfanswm y cynnydd blynyddol a ganiateir.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae gan Bolisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer Cynllun Busnes y CRT.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

1) Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roi'r Polisi Rhent ar waith. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu colli incwm i'r Awdurdod ac yn anochel yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio Cynllun Busnes y CRT ac o bosib yn ein hagor i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r polisi'n cael ei fabwysiadu.

2) Gallai gwrthod y polisi hwn hefyd beryglu incwm blynyddol o'r Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr, sef £2.66m a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, a hynny oherwydd y gellid ystyried nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i gynhyrchu incwm.

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

## Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Trwy fuddsoddiad parhaus yn ein stoc sy'n golygu bod cartrefi'n cyrraedd safonau SATC yn barhaus. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ddim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ni fu unrhyw ymgynghori penodol.<br>Rhoddir gwybod i denantiaid yn flynyddol am gynnydd mewn taliadau rhent a tâl gwasanaeth arol cymeradwyaeth ôl-ddemocrataidd ym mis Chwefror.<br>Rhoddir pedair wythnos o rybudd i denantiaid am y cynnydd hwn trwy lythyrau |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae Asesian Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi'i greu a'i ddiweddaru.<br>Gan gymhwyso'r codiadau rhent yn y modd hwn, rydym yn parhau â'r broses cydgyfeirio rhent ar gyfer y gwahanol fathau o eiddo sy'n decach i denantiaid. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau godi rhenti yn flynyddol ac mae'n darparu fformiwla briodol at y pwrpas hyn.<br>Mae rhwymedigaeth ar gynghorau i gynnal safon uchel o lety ar gyfer eu tenantiaid, ac felly maent yn dibynnu ar y refeniw ychwanegol hwn i wrthsefyll effeithiau chwyddiant.<br>Ni fydd y cynnydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o denantiaid oherwydd eu bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei | Dim – nid yw'r codiad rhent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Iaith |

| | | |
|---|---|---|
| | gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Gymraeg o ystyried y bydd y cynnydd yn y rhent a’r taliadau gwasanaeth yn effeithio ar bob tenant. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | **Cefnogol i’r bwriad** |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | **Cefnogol i’r bwriad** |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | **Cefnogol i’r bwriad** |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | **Dim yn berthnasol** |
| 5 | Eiddo | **Dim yn berthnasol** |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | **Dim yn berthnasol** |
| 7 | Caffael | **Dim yn berthnasol** |
| 8 | Sgriwtini | **Heb gyflwyno** |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Llythyr Hysbysu Llywodraeth Cymru 2022/2023 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid Awdurdodau Tai Lleol
Cyfarwyddwyr Tai, Awdurdodau Tai Lleol
Prif Weithredwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

29 Rhagfyr 2021

Annwyl Gyfaill

**Rhent a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol o 2022-2023**

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i landlordiaid cymdeithasol am y lefelau rhent uchaf y gellir eu codi ar denantiaid o 4 Ebrill 2022.

Dyma drydedd flwyddyn y cytundeb rhentu 5 mlynedd, ac mae'n bwysicach fyth bod anghenion landlordiaid a buddiannau tenantiaid yn cael eu hystyried yn gyfartal. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod wrth wraidd y setliad rhent hwn ac rwy'n ymwybodol o bwysigrwydd peidio â rhoi gormod o faich ariannol ar denantiaid yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Fel y gwyddoch i gyd, roedd y CPI ym mis Medi yn 3.1% sy'n golygu, o dan y cytundeb rhentu, nad yw'r cynnydd rhent blynyddol o CPI+1% yn berthnasol ac y bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn penderfynu ar y newid priodol i lefelau rhent a fydd yn berthnasol **i'r flwyddyn ganlynol yn unig**.

Mae'r Gweinidog wedi penderfynu:

1. Hyd at **CPI YN UNIG** fydd y codiad rhent blynyddol – ar sail mynegai mis Medi 2021 sef **3.1%**.

2. Er mai CPI (3.1%) fydd y cynnydd mwyaf a ganiateir ar gyfer 2022/23, ni ddylid ei ystyried yn gynnydd diofyn. Rhaid i benderfyniadau landlordiaid ar rent ystyried fforddiadwyedd rhenti i denantiaid.

3. Gellir lleihau, rhewi neu godi lefel rhent unigol hyd at £2 ychwanegol yr wythnos ar ben CPI, **ar yr amod na fydd cyfanswm yr incwm rhent y gellir ei gasglu ar draws**

**y stoc gyfan yn cynyddu’n fwy na CPI**. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynllunio i alluogi landlordiaid cymdeithasol i ailstrwythuro rhenti lle bo hynny'n briodol. I bob pwrpas, os penderfynwch y dylai rhent(i) unigol gynyddu hyd at £2.00 yr wythnos ar ben y 3.1%, bydd angen rhewi neu leihau rhent(i) eraill er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd cyffredinol ar gyfer y stoc i gyd yn fwy na 3.1%.

4. Dylai landlordiaid cymdeithasol hysbysu Llywodraeth Cymru os oes ganddynt bryderon am yr effaith y mae'r safon rhenti yn ei chael ar eu cynllun busnes, eu hyfywedd ariannol neu eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau i denantiaid a benthycwyr.

5. Fel rhan annatod o'r safon rhenti pum mlynedd, disgwylir i landlordiaid cymdeithasol bennu polisi rhent a thaliadau gwasanaeth sy'n sicrhau bod tai cymdeithasol yn fforddiadwy i denantiaid presennol ac yn parhau i fod yn fforddiadwy yn y dyfodol. Fel rhan o'r penderfyniad blynyddol ar lefel y cynnydd/gostyngiad rhent sydd i'w roi ar waith, rhaid i landlordiaid cymdeithasol asesu arbedion costau ar draws eu costau gweithredu sylfaenol a gwerth am arian yn ogystal â fforddiadwyedd i denantiaid.

**Atal Bandiau Rhent Targed**

Er bod Bandiau Rhent Targed wedi chwarae rhan werthfawr pan gawsant eu cyflwyno, mae'r sefyllfa heddiw yn wahanol iawn ac i'r rhan fwyaf o landlordiaid nid ydynt yn chwarae rhan bwysig o ran gosod rhenti lleol. Yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr y sector, byddant yn parhau i gael eu hatal. Caiff effaith y penderfyniad hwn ei monitro wrth symud ymlaen, ac os bydd materion annisgwyl ac anfwriadol yn deillio o'r penderfyniad hwn, bydd defnyddio Bandiau Rhent Targed yn cael ei adolygu.

**Monitro Cydymffurfedd**

Mae'n ofynnol i bob landlord cymdeithasol wneud asesiad blynyddol o fforddiadwyedd i denantiaid, effeithlonrwydd costau a dangos bod eu cartrefi a'u gwasanaethau yn cynrychioli gwerth am arian fel rhan o'u penderfyniad ar y codiad rhent bob blwyddyn. Rhaid iddynt ddangos tystiolaeth o fod wedi gwneud hyn.

Dylai landlordiaid cymdeithasol gofio mai'r safon rhenti yw'r cynnydd **mwyaf** y gellir ei roi ar waith. **Nid yw'n rhent targed**.

I helpu i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol, bydd yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol lenwi ffurflen monitro hunanardystio a ddefnyddir i fonitro cydymffurfedd â Safon Rhenti Llywodraeth Cymru. Mae'r ffurflen wedi'i chynnwys yn y Safon Rhenti a gyhoeddwyd a rhaid ei llenwi a'i dychwelyd erbyn diwedd mis Chwefror 2022.

Noder y cynhelir asesiadau manwl o gydymffurfedd â'r safon rhenti a gellir gofyn am wybodaeth/sicrwydd manwl pellach os oes unrhyw bryderon.

**Cytundeb Rhentu Ehangach**

Rwy’n falch o nodi bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar nifer o'r mentrau newydd y cytunwyd arnynt gyda'r sector. O ganlyniad, mae manylion y mentrau wedi'u diweddaru a'u nodi isod:

• Parhau i gryfhau eich dulliau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau eich bod yn cyfyngu gymaint â phosib ar unrhyw achosion o droi allan o’u tai, gan weithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gyflawni cytundeb newydd i beidio â throi pobl allan i fod yn ddigartref.

• Cynnal arolwg safonol o fodlonrwydd tenantiaid a darparu data i'w cyhoeddi ar un wefan ganolog i gynorthwyo tenantiaid i graffu ar berfformiad landlordiaid a'i gymharu. Y dyddiad cyflwyno nesaf, yn seiliedig ar y cwestiynau craidd diwygiedig, yw 28 Chwefror 2022 i'w gyhoeddi ym mis Ebrill.

• Adeiladu ar yr ymrwymiad i ddarparu cartrefi o ansawdd sy'n cydymffurfio â safon ansawdd tai newydd "WDQR 2021" ar draws pob deiliadaeth ar safleoedd sy'n gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru.


• Parhau i weithio tuag at ddelfryd lle mae pob tŷ newydd, beth bynnag yw’r ddeiliadaeth, yn cyrraedd safonau effeithlonrwydd ynni o ddim llai nag EPC A ar safleoedd sy'n gymwys i gael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf y pandemig, rhaid inni barhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod tenantiaid, nawr ac yn y dyfodol, yn gallu cael cartrefi mwy effeithlon o ansawdd uchel a’n bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru tlodi yn y cyfnod ansicr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am osod rhenti a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae croeso i chi gysylltu â'r timau drwy'r cyfeiriadau e-bost isod.

Awdurdodau Tai Lleol – HousingQualityStandards@llyw.cymru
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – HousingRegulation@llyw.cymru

Yn gywir



**EMMA WILLIAMS**
**Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio / Director of Housing and Regeneration**
**Llywodraeth Cymru / Welsh Government**

**c.c.** Arweinwyr Cynghorau Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cysylltiadau Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Gwasanaeth Ymgynghorol
Cyfranogiad Tenantiaid Cymru
Tai Pawb
Cyllid y DU
Cydgysylltydd Abbeyfield Cymru
Yr Athro Mark Stephens, Prifysgol Heriot Watt

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 14 Chwefror, 2022 |
| Pwnc / Testun: | Ymateb i'r Her Dai Lleol -Strategaeth Tai 2022-27 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Ned Michael |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Elliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu, Gwasanaethau Tai<br>01248 752137 |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**A1 argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Tai 2022-27**

1. **Cefndir**

**a) Rôl y Strategaeth**

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am dai ac i arwain ar waith partneriaeth i sicrhau tai o safon sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.

Y Strategaeth Tai yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellid gwella tai ar gyfer pobl Ynys Môn dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hynny. Bydd y Strategaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r anghenion tai ar yr ynys, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt a'r prif ganlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni.

**b) Sefyllfa Gyfredol**

Mae'r Strategaeth Tai Interim 2021 yn cydnabod y newidiadau sydd wedi ein hwynebu yn ystod y flwyddyn gan flaenoriaethau'r hyn sydd oedd angen digwydd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag gwybodaeth ar sut mae Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

Mae hefyd yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod ymgynghori a bydd yn cael ei gyflwyno ym mhwyllgor Sgriwtini mis Mawrth.

## 2. Amcanion Allweddol

Defnyddiwyd blaenoriaethau'r Strategaeth bresennol ar gyfer y Strategaeth Dros Dro a fydd hefyd yn sail ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-27. Sef:

- Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

## 3. Ymgynghori

Rhoddwyd y Strategaeth ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghori ar gyfer sylwadau yn ystod cyfnod o 6 wythnos a ddaeth i ben ar 20 Rhagfyr, 2021. Cafwyd 25 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda'r ymatebion a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn aelodau o'r cyhoedd yn byw ar Ynys Môn.

Gofynnodd yr ymgynghoriad:

- Ydi'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Strategaeth?
- Oes yna unrhyw faterion eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?
- A ydych yn cytuno gyda'r gweithredoedd tymor byr, canolig a hir dymor sydd wedi eu hadnabod mewn ymateb i brif themâu'r Strategaeth?
- Unrhyw sylwadau pellach sy'n ymwneud a'r Strategaeth Dai 2022-27?

Gyda'r mwyafrif, 60%, yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf gyda sylwadau a gymerwyd gan y 9 nad oeddent yn cytuno mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth yn cynnwys rhagor o fanylion / eglurhad ar sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Strategaeth hon.

Roedd 5 ymatebydd yn cynnwys sylwadau ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd ac a ymgorfforwyd, lle y bo'n berthnasol, o fewn y fersiwn ddiwygiedig.

Mae Atodiad 1 yn dangos adroddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cyhoeddwyd Arolwg o Anghenion Tai'r un pryd â'r ymgynghoriad; diben yr holiadur hwn oedd casglu barn pobl sy'n chwilio am gartref ar Ynys Môn. Derbyniwyd 66 o ymatebion gyda 57 o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref ar yr Ynys ar hyn o bryd. Mae 69% o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref i'w brynu.

Roedd llawer, 21, yn rhentu'n breifat gyda 23 yn chwilio am gartref cyntaf ac 16 angen cartref mwy. Roedd 44 yn awyddus i brynu a 37 yn awyddus i brynu ar y farchnad agored gyda 14 yn dangos diddordeb mewn rhent cymdeithasol. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r arolwg hwn ar gyfer datblygu Polisi Ecwiti a Rennir a bydd yn cyfrannu at ein gwaith ar gwblhau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae Atodiad 2 yn dangos adroddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

## 4. Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Tai 2022-27

Nod yr ymgynghoriad oedd uchafu cyfleoedd i roi adborth gan amrywiaeth o rhanddeiliaid sydd wedi ei grynhoi isod.
Gwnaed cyflwyniad ar y Strategaeth ddrafft yn y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 14 Mai 2021 | Cyfarfod Grant Tai Cymdeithasol |
| 24 Mai 2021 | Cyfarfod Chwarterol Landlordiaid Tai Cofrestredig |
| 24 Mai 2021 | Panel Iechyd Meddwl |
| 22 Mehefin 2021 | Fforwm Landlordiaid Preifat Ynys Môn |
| 30 Mehefin 2021 | Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai |
| 29 Medi 2021 | Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref |
| 7 Hydref 2021 | Sesiwn Briffio Misol Cynghorwyr |
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Tai Môn |
| 29 Rhagfyr 2021 | Gweithdy Tai Menter Môn |
| 14 Rhagfyr 2021 | Sesiwn Gwybodaeth Staff Gwasanaethau Tai |

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol
- Datganiad i'r wasg (1 Rhagfyr – mwy o dai cyngor o safon ar y ffordd)
- Tudalennau cyfryngau cymdeithasol Medrwn Môn
- Baner ar dudalen we gorfforaethol

Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos.
Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn).
Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr HSG
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Age Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Shelter Cymru
- Gofal a Thrwsio

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nid yw peidio cyhoeddi Strategaeth Tai yn opsiwn gan ei fod yn greiddiol i waith partneriaid Tai a'r Cyngor ar yr Ynys |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Er mwyn sêl bendith ar amcanion a gweithgaredd ar yr Ynys |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Strategaeth yn gosod themâu gwaith er mwyn ymateb i anghenion tai ar yr Ynys |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae 18 y cant o gartrefi yng Nghymru yn peri risg annerbyniol i iechyd, ac mae tai gwael yn costio dros £1bn y flwyddyn i gymdeithas yng Nghymru. Mae tystiolaeth gref bod tai gwael yn gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol gwael (ICC).<br>Mae'r uchod yn tystiolaethu sut gall cartrefi gwael gael effaith ar unigolion sydd yn ei dro yn golygu ymyraethau uwch gan sefydliad gan gynnwys yr Awdurdod |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae bob thema blaenoriaeth yn golygu bod rhaid cydweithio gyda phartneriaid allweddol o fewn Tai er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Mae yn cynnwys Cymdeithasau Tai, Darparwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cefnogaeth, Trydydd Sector a Gwasanaethau eraill y Cyngor ac yn allanol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Gweler atodiad 1 a 2 ar y broses ymgynghori |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Asesiad Effiath sydd yn nodi effaith positif |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler Asesiad Effaith sydd yn cymryd i ystyriaeth rhai all fod yn fregus |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o fewn yr asesiad effaith |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Yn gefnogol o'r argymhelliad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dd/b |
| 5 | Eiddo | Dd/b |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Dd/b |
| 7 | Caffael | Dd/b |
| 8 | Sgriwtini | Yn ystod Pwyllgor 17.1.22 argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi cymeradwyaeth |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Strategaeth Tai 2022-27<br>Ymatebion i'r Ymgynghoriadau<br>Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| |

**Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27**

## 1. Pwrpas y Strategaeth

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- **Adnabod 6 thema allweddol ar gyfer y Strategaeth**
- **Rhoi trosolwg o'r materion y mae teuluoedd ar yr Ynys yn eu hwynebu**
- **Sut mae'r Strategaeth yn mynd i ymdrin â'r materion hyn, neu ei chyfraniad wrth ddelio â'r materion hyn**
- **Beth sydd angen ei wneud yn ystod cyfnod y Strategaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor**
- **Cynorthwyo gyda Datganiad o Angen bydd yn cael ei ddatblygu**

Nod strategol cyffredinol y Strategaeth yw

| |
|---|
| **Sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallent alw'n gartref wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol** |

## 2. Strategaeth ar gyfer pwy yw hon?

Bydd y Strategaeth hon yn berthnasol i lawer o bobl ar Ynys Môn gan y bydd yn darparu mynediad i dai fforddiadwy, a fydd yn cynnwys llawer o wahanol ddeiliadaethau, llety a chymorth i grwpiau cleientiaid penodol a bregus, pobl sy'n dymuno prynu cartref cyntaf eu hunain, pobl sydd angen addasiadau i'w cartrefi oherwydd salwch a phobl sydd mewn argyfwng ac sydd angen cartref ar frys.

## 3. Sut ydym am gyflawni hyn?

Drwy ganolbwyntio ar 6 thema allweddol:-

- ✓ Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol
- ✓ Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau
- ✓ Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- ✓ Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai
- ✓ Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- ✓ Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

Bydd y 6 thema allweddol hyn yn darparu sylfaen ar gyfer nodi beth yw'r materion a sut mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y tymor byr o 1 i 2 flynedd, y tymor canolig a'r hirdymor cyfnod y Strategaeth.

Bydd cyflawniadau ym maes tai yn cael eu diweddaru bob blwyddyn er mwyn dangos y cynnydd a wnaed ac i ddarparu naratif am unrhyw faterion sy'n datblygu ac angen eu cynnwys yn y Strategaeth yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

## 4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae'r naratif yn aros fel yr oedd yn y Strategaeth Interim.

Mae **Cynllun y Cyngor** yn darparu fframwaith gwaith ar gyfer pob gwasanaeth y Cyngor ac mae'r Gwasanaeth Tai yn alluogwr blaenllaw ar gyfer ei gyflawni. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu

fframwaith i'r holl wasanaethau gydweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau ac amcanion cyffredin. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar gyfer y cyfnod nesaf 2022 ymlaen.

Mae nifer o Strategaethau yn eistedd o dan y ddogfen hon sy'n bwydo'r Cynllun uchod ac yn cynorthwyo i'w gyflawni.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-26**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Gorffennaf 2017. Mae hwn yn strategaeth datblygu ar gyfer datblygu tir am gyfnod o 15 mlynedd sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn llywio datblygu tai newydd ar yr Ynys, yn ogystal â defnyddiau eraill. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg**

Gweledigaeth Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yw:

- Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol
- Ein holl drigolion yn teimlo'n rhan ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog
- Blaenoriaeth amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol

Mae gan y Strategaeth Tai rôl hanfodol mewn cyflawni'r uchod.

**Polisïau Cenedlaethol:**

**Diwygio Lles**

Fel y cyhoeddwyd yn eang, mae Diwygio Lles wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau ac effeithiau mwyaf sylfaenol ers cyflwyno'r Systemau Lles yn 1946. Daeth Diwygio Lles i rym ar Ynys Môn ddiwedd 2018 a'i gyflwyno fesul cam. Sefydlwyd Hwb Diwygio Lles yn cynnwys Gwasanaethau allweddol y Cyngor ac asiantaethau gyda'r nod o ddarparu ymatebion a chamau lliniaru priodol ac mae wedi gwneud hynny drwy:

- Ddatblygu ymatebion i ganlyniadau uniongyrchol Credyd Cynhwysol
- Ystyried yr oblygiadau hirdymor i ddinasyddion a gwasanaeth ar Ynys Môn yn cynnwys, lle bo'n briodol, amrywiaeth eang o sefyllfaoedd
- Gwella dealltwriaeth yn lleol o sut y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio ar wasanaethau statudol ac anstatudol
- Ymgysylltu â phartneriaid allweddol a'u diweddaru yn ôl y gofyn drwy fecanweithiau partneriaeth sefydledig a nodi a gwella meysydd lle nad yw'r fframwaith hwn yn bodoli neu lle mae'n methu â darparu ymateb priodol
- Cynhyrchu a chynnal cynllun gweithredu gyda chyfres o argymhellion pan ddaw gwaith yr Hwb i ben

Ym mis Gorffennaf 2020, comisiynwyd Asesiad Cychwynnol o'r effeithiau posib ar wasanaethau a chyllidebau CSYM yn sgil cynnydd yn nifer y bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu cynnydd yn nifer yr hawlwyr allan o waith mewn cyfnod byr iawn yn ystod Covid a bod hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc a dynion. Amlygodd yr adroddiad hefyd effeithiau cymdeithasol y cynnydd mewn diweithdra sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig a theimlo'n ynysig.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel conglfaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi i ni uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effeithiau hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, iechyd, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau ac amcanion llesiant ym mhopeth y byddant yn ei wneud.

**Grant Cymorth Tai**

Daeth Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2020 ac mae'n cymryd lle'r Rhaglen Cefnogi Pobl flaenorol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant oedd yn bodoli'n barod; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgareddau sydd yn atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai ddod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn cyllido dyletswydd statudol awdurdodau lleol i atal digartrefedd, ond yn hytrach mae gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai yn ehangu, atgyfnerthu a chefnogi'r gwasanaeth statudol er mwyn sicrhau bod y cynnig cyffredinol a ddarperir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cynorthwyo pobl fregus i fynd i'r afael â'r problemau, sy'n niferus weithiau y maent yn eu hwynebu, megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, cam-drin sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar y person, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal cartrefi addas drwy fynd i'r afael â'r problemau iechyd meddwl a/neu gam-drin sylweddau y maent yn eu hwynebu, gan gynorthwyo i wella eu hiechyd a'u lles a/neu eu helpu i symud ymlaen i waith neu gyfle hyfforddiant, neu symud yn nes at hynny, ar sail eu hamgylchiadau penodol.

Mae cymorth cysylltiedig â thai yn darparu llu o wasanaethau i alluogi pobl fregus i gynnal eu tenantiaeth / aelwydydd ac i fyw'n annibynnol yn y cartrefi a'r cymunedau o'u dewis am gyhyd â phosib.

**Datgarboneiddio**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon, ac yng Nghymru'r targed yw o leiaf 80% o ostyngiad erbyn 2050. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell, Gorffennaf 2019, yn gwneud 7 argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu harwain ac mae'n datgan

'Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf thermol effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o'r stoc dai yng Nghymru cyn 1919, pan nad oedd unrhyw safonau adeiladu o ran perfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi yng Nghymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae gofynion perfformiad ynni wedi newid yn sylweddol.'

Mae Cynllun diweddar Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel" yn cynnwys pennod gyfan ar adeiladau yn seiliedig ar bob math o ddeiliadaeth a nodir bod adeiladau preswyl yn gyfrifol am y ffynonellau uchaf o allyriadau fel cyfanswm allyriadau Cymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn rhan o'r gwaith datgarboneiddio.

**Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Modern o Adeiladu Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020**

Strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau ynghylch cynhyrchu tai wedi eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern sy'n annog defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol ochr yn ochr â thechnolegau a dulliau newydd.

**Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Hydref 2019**

Mae'n datgan yn glir nad oes modd atal digartrefedd drwy dai yn unig. Mae digartrefedd yn golygu person sydd heb lety neu ble nad yw eu tenantiaeth yn ddiogel. Cysgu allan yw ochr fwyaf gweledol a difrifol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un nad oes ganddynt lety, nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llety neu ble nad yw'n rhesymol iddynt barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'syrffio soffas', dioddefwyr camdriniaeth a llawer mwy o sefyllfaoedd. Mae person yn ddigartref hefyd os yw eu llety yn strwythur symudol ac nad oes ganddynt unman i roi'r strwythur hwnnw. Gall digartrefedd, neu'r risg o fod yn ddigartref, gael effaith ddinistriol ar unigolion a'u teuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles, ac ar ddatblygiad ac addysg plant, ac mae'n rhoi unigolion mewn perygl o fod mewn sefyllfa sy'n gwaethygu a'u bod yn wynebu ffurfiau mwy difrifol o ddigartrefedd.

**Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol**

Mabwysiadwyd Strategaeth Ranbarthol gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyda'r nod o Leihau Digartrefedd ar draws Gogledd Cymru o dan y penawdau Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau a oedd yn nodi themâu a oedd yn gyffredin i bob Awdurdod Lleol yn eu hadolygiadau unigol. Byddai cynllun gweithredu rhanbarthol a lleol wedyn yn ymgorffori'r materion allweddol a'r camau angenrheidiol. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-21 oedd ein hymateb i'r pandemig.

**Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016**

Mae'r Ddeddf hon yn ceisio gwneud rhentu cartref yn fwy syml ac yn ceisio diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn darparu dau fath o gontract meddiannaeth yn unig (diogel a safonol) i gymryd lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ail gyflwyno'r holl gytundebau tenantiaeth bresennol a newydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, ar gyfer pobl mewn tai a rennir ac ar gyfer tenantiaid lle mae angen gwneud gwaith atgyweirio ar eu cartrefi.

**Cynllun Gwaith Cydraddoldeb Hilio Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bryd gweithredu ar frys mewn hyrwyddo gweledigaeth i Gymru lle mae pawb yn cael eu trin fel dinesydd cyfartal ac rydym fel Cyngor wedi cyfrannu i'r ddogfen ymgynghori fydd yn arwain at Gynllun Gwaith Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein Strategaeth Tai yn hyrwyddo'r nod cyffredinol o 'sicrhau bod bob aelod o'n Cymdeithas yn gallu byw mewn cartref sydd yn addas a fforddiadwy sydd yn cwrdd ag amrywiaeth o anghenion'

**Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai**

Fel un o 11 o Gynghorau Cymru sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai Cyngor mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a diweddaru Cynllun Busnes CRT bob blwyddyn, a darparu adroddiad blynyddol ar ein gweithgareddau yn ogystal â throsolwg o ddatblygiadau newydd gan ein partneriaid allweddol sef y Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol sy'n gweithredu ym Môn.

**Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn adolygiad o anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i cynhyrchwyd gan y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf).

**Fforddiadwyedd**

Nid yw'r Sector Rhent Preifat ar Ynys Môn yn farchnad arbennig o fforddiadwy gyda chyfran isel iawn o eiddo ar gael o fewn lefelau'r Lwfans Tai Lleol. Mae prynu cartref yn parhau i fod tu hwnt i afael nifer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau uchel eiddo o gymharu â lefelau incwm lleol a'r blaendal sydd ei angen.

Mae hyn, yn ogystal â diffyg argaeledd tai cymdeithasol addas, wedi golygu bod nifer o'r teuluoedd hyn yn troi at y farchnad rhent. Ar hyn o bryd, mae 22% o holl boblogaeth Ynys Môn yn derbyn naill ai Cymhorthdal Tai neu gymorth ariannol gyda'r Dreth Cyngor ac mae 59.9% o'r aelwydydd hyn mewn oed gwaith ac yn cael eu heffeithio gan yr holl ystod o ddiwygiadau lles.

Dangosodd yr adroddiad Policy in Practice, 2017 bod 74.4% o'r aelwydydd hyn yn talu rhent sy'n uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir ar gyfer Budd-dal Tai. Ar gyfartaledd, y gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai yw £25.74 yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd (79.3%) y mae'r cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt ar Ynys Môn mewn oed gweithio.

Mae adroddiad a gomisiynwyd yn edrych ar y Sector Rhent Preifat yn dangos bod landlordiaid yn codi rhwng 10% ac 20% yn uwch na lefelau'r Lwfans Tai Lleol gan wybod y bydd rhaid i aelwydydd ariannu'r rhent ychwanegol. Ymddengys bod fforddiadwyedd yn broblem, yn arbennig i aelwydydd sydd ar incwm is neu ar fudd-daliadau. Bydd rhai landlordiaid yn datgan 'dim DSS' tra bod eraill yn osgoi tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol oherwydd eu bod yn ofni oblygiadau *rhent uniongyrchol*. Bydd landlordiaid sy'n derbyn tenantiaid ar fudd-daliadau yn cymryd mis o flaendal a / neu'n gofyn am warantwr all dalu'r rhent yn llawn.

Cynhaliodd Ynys Môn arolwg o landlordiaid sector preifat yn ystod 2017. Anfonwyd yr arolwg at 384 o landlordiaid preifat ac roedd y gyfradd ymateb yn 11%. I grynhoi, roedd yn dangos bod y mwyafrif yn dweud eu bod yn berchen un tŷ, roedd 74% o denantiaid yn aros rhwng 1 a 5 mlynedd, roedd 42% yn hawlio Budd-dal Tai. Edrychom hefyd ar beth fyddai'n cymell landlordiaid i osod i denantiaid ar Fudd-dal Tai. Yr ymatebion oedd y byddai 71% yn gwerthfawrogi rhyw fath o gymorth tenantiaeth ac roedd 85% eisiau rhyw fath o warant rhent. Y math o broblemau a gafodd eu hadrodd oedd ôl-ddyledion rhent, 52%, a thenantiaid yn achosi difrod i'r eiddo, 48%. Pan gynigiwyd rhestr o gymhellion, a gofyn i landlordiaid eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth, y flaenoriaeth fyddai cymorth ariannol i wneud mân welliannau a gwarant rhent ar gyfer eiddo gwag hyd nes bod tenantiaid addas yn cael eu canfod.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, ym mis Rhagfyr 2020, fod nifer o Denantiaid Preifat yn ei chael yn anodd fforddio prynu bwyd neu wresogi eu cartref. Roedd nifer yn rhoi blaenoriaeth i dalu rhent, ac roedd rhai yn gorfod benthyg arian gan deulu neu ffrindiau er mwyn cwrdd â'u hymrwymiadau. Byddai'n fater o bryder bod tri o'r pumdeg dau a gwblhaodd yr arolwg wedi defnyddio benthycwyr arian er mwyn gallu talu eu rhent. Nid oedd y tenantiaid hynny a oedd yn ei chael yn anodd fforddio eu rhent, neu a oedd mewn dyled, wedi trafod y problemau hyn gyda'u landlord a dim ond un unigolyn oedd wedi cytuno ar gynllun ad-dalu.

Yn ogystal, roedd yr arolwg yn gofyn a oedd tenantiaid yn ymwybodol o'r cymorth y gellid ei gynnig ac o'r rhai a ymatebodd, roedd pymtheg yn ymwybodol o'r cyngor, gwybodaeth a'r cymorth y gallai'r Awdurdod Lleol ei ddarparu i atal teuluoedd yn yr ardal rhag dod yn ddigartref. Roedd nifer wedi gofyn am wybodaeth bellach ynghylch gwneud y mwyaf o incwm, cymorth tenantiaeth a hawliau tenantiaeth ac anfonwyd y manylion hyn at y gwasanaethau er mwyn iddynt gymryd camau pellach.

**Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 'niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers cryn dipyn o flynyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol gan y rheiny sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr.

Yn aml, lleolir ail gartrefi yn y cymunedau Cymraeg ac o'u cwmpas, a gall hyn arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau sy'n greiddiol i ffyniant hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach eraill, yn effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol ac yn codi prisiau yn y farchnad dai lleol, weithiau yn sylweddol.

Nododd adroddiad diweddar gan Wasanaeth Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn bod 'Y pris cyfartalog ar gyfer tŷ yn Ynys Môn yw £170,000 a gydag incwm cyfartalog yn £27,445 mae'r gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 6:2:1 gan olygu fod 62.2% o bobl leol wedi prisio allan o'r farchnad. Mae'r ystadegau yn llawer iawn uwch yn yr ardaloedd hynny sydd hefo cyfraddau uwch o ail-gartrefi. Yn Rhosneigr ble fo 35.12% o'r tai yn yr ardal cyngor cymuned yn gartrefi gwyliau, y pris tai cyfartalog yw £263,00. Gydag incwm cyfartalog aelwydydd yn £31,596 golygai fod y gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 8:3:1'.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y pwysau a wynebir gan deuluoedd ac aelwydydd wrth ddymuno cael mynediad i dai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol yn ystod newid digynsail yn y farchnad dai sydd wedi gweld cynnydd enfawr ym mhrisiau tai. Amlygodd yr Arolwg Diweddar o Anghenion tai y math o atebion tai lleol a'r angen amdanynt ac y bydd y Strategaeth hon yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o opsiynau tai ar gyfer trigolion Ynys Môn.

**Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol**

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae cyfnod Covid wedi dangos pa mor bwysig ydyw i bobl allu byw o fewn cymunedau lleol ac wedi eu cysylltu yn ddigidol.
- Mae cyflogau yng Ngogledd Cymru ymhlith yr isaf ym Mhrydain a chyda cynnydd mewn rhenti yn y sector breifat a phrisiau tai yn codi mae cael mynediad i dai fforddiadwy yn anos.
- Bydd prisiau tai cyfartalog yn parhau i godi gyda materion fel ail gartrefi yn cael sylw ar lefel lleol a chenedlaethol.
- Mae darparu amrywiaeth o fathau o gynlluniau tai fforddiadwy yn bwysig i helpu ystod o aelwydydd ar gyfer pobl sengl, teuluoedd ac aelwydydd sydd angen cymorth ac eiddo wedi'i addasu sydd hefyd yn cynnal cymunedau Cymraeg.

**Beth ydym am ei wneud?**

Adeiladu cartrefi mewn cymunedau gyda'n Partneriaid Tai allweddol, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau gwledig i ddeall y gwir angen am dai o fewn y cymunedau.

Bydd y Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cynnig eiddo rhent cymdeithasol, rhenti canolradd, hunan adeiladu a chymorth i brynwyr tro cyntaf ar y cyd hefo ein Partneriaid Tai a gyda'n Cynllun Rhannu Ecwiti.

Sicrhau bod safleoedd addas yn cael eu darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol ar angen sydd wedi ei adnabod yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Yn ystod y tair blynedd nesaf, cynyddu stoc tai'r Cyngor gan 176 o gartrefi a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (ein Partneriaid Tai allweddol) gan 144 o gartrefi a byddwn yn annog enwau Cymraeg ar y stadau tai newydd.

*Bydd hwn yn weithred tymor hir gyda tharged wedi ei osod am y 3 blynedd nesaf fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol.*

Adolygu data er mwyn diweddaru'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a fydd yn cynnwys prosbectws o'r angen am dai ar gyfer yr Ynys.

*Mae hwn yn weithred tymor byr fydd yn cael ei adolygu.*

Ymateb i'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr cyfredol yn ogystal â chynnal asesiad yn ystod 2021 ac ymateb i unrhyw angen sy'n datblygu.

*Bydd hwn yn weithred tymor canolig i hir.*

**Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau**

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae cartrefi gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned ac yn creu cwynion y mae'n rhaid i'r Cyngor a sefydliadau eraill ddelio â nhw.
- Rhentu yn y Sector Preifat yw'r unig ddewis i rai teuluoedd.
- Cynorthwyo cymunedau i fedru cynnig rhwydwaith o gyfleoedd gwirfoddoli, chynhwysol a digidol i gyfranogi neu ofyn am gymorth pryd a phan fydd pobl ei angen.
- Mae'r agenda datgarboneiddio yn ceisio gwneud tai yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau ein ôl-troed carbon.
- Bydd gofyniad Deddf Rhentu Tai Cymru yn dod yn weithredol yng Ngwanwyn 2022 fydd yn effeithio bob tenantiaeth breifat a chymdeithasol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, gydag o leiaf 50 o dai yn ystod 2021-22.

Targedu'r tai mwyaf problemus o fewn cymunedau a gwella tai o fewn y sector breifat.

Hwyluso rhwydweithio cymunedol a chefnogi cynlluniau ar gyfer hyrwyddo Cynllunio Lle.

Cynhyrchu Strategaeth Datgarboneiddio.

Cydweithio i annog negeseuon cyson am Ddeddf Rhentu Tai

**Sut ydym am wneud hyn?**

Adolygu ein Strategaeth Tai Gwag ar gyfer y cyfnod nesaf, 2023-28.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

*Mae'r isod yn weithredoedd sydd yn barhaol gyda monitro rheolaidd:*

Cynnig cyngor ac ymgysylltu â landlordiaid preifat er mwyn annog cyflenwad da o gartrefi er mwyn helpu pobl sydd yn derbyn cefnogaeth i gynnal eu tenantiaeth neu sydd â phroblemau gyda'u tenantiaeth.

Cynnig cyngor, grantiau a benthyciadau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig rhannu ecwiti a chymorth i brynwyr tro cyntaf drwy ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai a'r incwm Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r mentrau yma.

Darparu cyngor ynghylch tlodi tanwydd, cynhwysiant digidol ac ariannol a materion ariannol eraill sy'n effeithio ar deuluoedd a chyfeirio pobl at fentrau megis y Fenter Garbon Isel Cartrefi Hapus.

Cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i leihau allyriadau ac edrych ar ffynonellau gwres amgen a chyfleoedd cyllido.

Cyflwyno newidiadau Deddf Rhentu Cymru ar gyfer ein holl denantiaid fel sydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

| Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai |
|---|

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae arwyddion cynnar yn awgrymu na fydd y statws angen blaenoriaeth mewn perthynas â digartrefedd yn cael ei adfer a bydd y pwysau ychwanegol yn parhau yn yr i'r Timau Asesu Tai, Datrysiadau Tai a Darparwyr Cefnogaeth Tai.
- Aelwydydd pobl sengl yw'r categori uchaf o hyd o ran nifer y bobl sy'n troi at ein Gwasanaeth Digartrefedd, ac mae gan nifer o'r rhai sy'n gofyn am gymorth anghenion cymhleth.
- Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch gwir effeithiau Covid wrth i gyfyngiadau ar ryngweithio cael eu cyflwyno yn fyr rybudd gan olygu bod teuluoedd ac aelwydydd yn gorfod delio â thensiynau, trais domestig a phroblemau iechyd meddwl yn ystod cyfnodau hirach o gael eu hynysu ynghyd a llai o ryngweithio cymdeithasol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Bydd angen cael darpariaeth ar gyfer llety argyfwng i sicrhau bod y rheiny sy'n ddigartref yn cael mynediad i lety. Drwy weithio yn unol ag egwyddorion ailgartrefu yn gyflym rhoddir pwys lais ar sicrhau llety addas ynghyd â chymorth i gyd-fynd ag anghenion y person neu'r teulu fel eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth yn y dyfodol.

Bydd ein Cronfa Atal Ddigartrefedd yn cynorthwyo i atal digartrefedd ymysg y rhai sydd â'r risg mwyaf o golli eu tenantiaeth neu a fyddai'n dod yn ddigartref.

Bydd parhau i weithio a datblygu cysylltiadau gyda landlordiaid y sector rhent preifat yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'n gwaith dyddiol yn ystod cyfnod y Strategaeth.

Bydd delio gyda phroblemau'n ymwneud â thlodi yn dod yn un o brif nodweddion yr agenda Corfforaethol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu targedu at aelwydydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael cymorth yn ôl y gofyn.

Gweithredu'r Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Targedir ein Grant Cymorth Tai tuag at wasanaethau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaeth gan osgoi digartrefedd drwy sicrhau bod teuluoedd mewn llety addas ac atal digartrefedd drwy ein gwasanaethau cymorth.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Darparu o leiaf 33 cartref sy'n cynnig dull ailgartrefu cyflym wrth ddelio gyda digartrefedd yn ystod y flwyddyn i ddeunaw mis nesaf.

*Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn cael ei adolygu yn flynyddol wrth i ni weithio tuag at yr egwyddor hon dros y tymor hir.*

Datblygu cynllun cyfathrebu Gogledd Cymru ar gyfer Tenantiaid Preifat er mwyn hyrwyddo cyngor amserol ynghylch sut y gall Timau Asesu a Datrysiadau Tai gynorthwyo gyda phroblem barhaus cyn iddi ddatblygu'n argyfwng digartrefedd.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Hyrwyddo mentrau lleol megis Bwyd Da Môn.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Ataliol Corfforaethol er mwyn hyrwyddo cydweithio i atal teuluoedd rhag mynd i sefyllfa o argyfwng sydd hefyd yn arbed ar gostau gwasanaethau statudol drwy ddarpariaeth o wasanaethau yn lleol.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

**Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai**

**Pan fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Mae cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae gwaith a gweithgareddau nifer o Wasanaethau Tai a'i bartneriaid yn cyfrannu tuag at hyn, o Gyfranogiad Tenantiaid i'r Grant Cymorth Tai, gan rymuso pobl fel eu bod yn gallu cyfrannu a chymryd rhan yn eu cymuned.
- Mae cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau er mwyn derbyn cefnogaeth yn allweddol er mwyn atal argyfyngau ac ymyrraeth drwy ymyrraeth statudol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Dosbarthu'r Grant Cymorth Tai i'n darparwyr sy'n adlewyrchu'r anghenion a nodwydd yn yr asesiad o anghenion.

Darparu gwasanaeth cyflawn ar gyfer dioddefwyr trais domestig.

Rydym yn awyddus i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a digidol er mwyn atal unigrwydd.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Mae'r data mapio anghenion yn parhau i lywio gwasanaethau yn y dyfodol ac mae iechyd meddwl, digartrefedd, cam-drin alcohol a chyffuriau yn parhau i fod yn broblem.

*Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn bwydo fewn i gynllun tymor hir.*

Drwy weithio gyda Gwasanaethau Plant mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn cael eu darparu mewn modd cydlynol drwy gynnig mynediad i wasanaethau drwy'r gwasanaeth Un Drws Blaen.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 gan gynnwys y cyfle i gynyddu cynhwysiad digidol.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

**Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach**

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o thua 70% yn nifer y bobl dros 85 oed sy'n byw ar yr Ynys yn ystod y 10 mlynedd nesaf.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu fframwaith Cymunedau Cyfeillgar.
- Mae hyrwyddo annibyniaeth yn agwedd allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Mae pobl a theuluoedd yn wynebu argyfyngau fel rhyfel a thrais mewn gweledydd eraill ac rydym yn barod i gynorthwyo gyda chynlluniau ail sefydlu teuluoedd yma ym Môn.

**Beth ydym am ei wneud?**

Sicrhau bod ein darpariaeth Tai â Chymorth yn parhau i gynnig tai priodol a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r stoc yn ogystal â chynnig cymhellion i symud i dŷ llai.

Cwblhau achos busnes ar gyfer trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr Ynys a chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer datblygu'r cynllun trwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

Hyrwyddo model o bresgripsiwn cymdeithasol drwy Wasanaethau Oedolion a chynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth fel sydd ei angen o dan Ddeddf Cymru Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Bydd gwaith yn parhau o ran gweithio tuag at gynnig gwasanaeth cyson pan fydd teulu neu unigolyn yn gwneud cais i addasu eu cartrefi, ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth ar eu cartref, h.y. hunan berchnogion neu denantiaid.

Bydd Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd (Gwasanaethau Di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu) i ddarparu'r ddarpariaeth orau ar gyfer pobl ag anableddau drwy drefniadau grant ar gyfer tai presennol a thai newydd.

Cydweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar gynlluniau Adleoli Cenedlaethol.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Datblygu'r math cywir o dai yn yr ardal gywir gan wneud darpariaethau ar gyfer pobl hŷn mewn datblygiad gofal ychwanegol yn ogystal ag edrych ar yr opsiwn o lety ar gyfer pobl hŷn.

*Mae hwn yn weithred tymor byr i ganolig.*

Bydd cael therapydd galwedigaethau yn y Gwasanaethau Tai yn cynorthwyo o ran darparu cyngor a datrysiadau addasu ac amserol i'r rheiny sydd angen mynediad i eiddo rhent cymdeithasol yn ogystal â sicrhau bod datblygiadau newydd yn addas ar gyfer teuluoedd neu unigolion sydd angen cartrefi wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Oedolion i wireddu eu Strategaeth Letya Pobl Hyn.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Cynnig set cytunedig o Safonau Gwasanaeth ar gyfer addasiadau, yn ddiwahaniaeth ar y math o ddeiliadaeth unigolion ar eu cartref er mwyn sicrhau bod rhai sydd yn derbyn addasiadau i'w cartrefi yn cael y safon gorau o wasanaeth.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

Cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i rannu gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a lleoliadau posib i gael llety.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Cytuno ar gynlluniau Adsefydlu Ffoaduriaid.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

**Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol**

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Gall buddion Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ddeillio yn uniongyrchol o adeiladu cartrefi newydd a chyfarpar byw'n ddoeth (smart living). Gall y Cyngor a phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael effaith uniongyrchol ar hyn drwy adeiladau tai fforddiadwy newydd yn ogystal â derbyn Grant Tai Arloesol sy'n hyrwyddo'r defnydd o fesurau sy'n gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran y defnydd o ynni.
- Mae angen datblygu tai fforddiadwy a thai marchnad agored addas er mwyn cefnogi twf yn yr economi mewn trefi ac ardaloedd gwledig.
- Mae gwybodaeth ddiweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cartrefi fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol eu prynu wedi'i gysylltu â phobl sydd bellach yn gallu gweithio gartref ac felly'n ail/leoli i Ynys Môn ynghyd â chynnydd mewn ail gartrefi a'r farchnad gwyliau fel Air B&B.
- Mae cyferbyniad yn bodoli o hyd rhwng ffyniant economaidd a lefelau amddifadedd cymdeithasol mewn rhai o'r cymunedau mwyaf ffyniannus a'r rhai tlotaf.
- Bydd rôl tai yn ystod yr adfer yn dilyn Covid a'r adferiad gwyrdd yn holl bwysig.

**Beth ydym am ei wneud?**

Mae gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru nod i wella effeithiolrwydd ynni cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i annog mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol i dendro am gontractau gwaith ac annog cyfleoedd am ddulliau adeiladau sy'n lleihau carbon ac ôl-osod.

Ymateb i'r heriau mae ail gartrefi yn cyflwyno o ran darpariaeth tai fforddiadwy a chynlluniau gan LLC i ymateb i'r materion hyn.

Mae Gwasanaethau Tai a'i Phartneriaid yn cyfrannu yn helaeth at yr economi yn lleol drwy nifer o gontractau gwaith, adeiladu ac adnewyddu ynghyd ag contractau gwasanaeth sydd yn cefnogi darparwyr cefnogaeth leol a rhoddi cyfleon gwaith.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Parheir i gefnogi Prosiectau Adfywio megis dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd tra bydd cyllid ar gael.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Mae'r Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn parhau i gefnogi nifer o gwmnïau lleol drwy cynnig cytundebau gwaith drwy ei gynlluniau gwaith cynnal a chadw cynlluniedig, gwaith ôl-osod,

rhaglenni adeiladu tai newydd ac adnewyddu hen dai Cyngor sy'n cael eu prynu'n ôl. Mae gan ein contractau gwasanethau hefyd gyfraniad pwysig i'w wneud yn lleol gan gefnogi swyddi a chreu chyfleoedd.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

Byddwn yn annog cyfleoedd i gydweithio i ymateb i'r her o ddatgarboneiddio a chyfleoedd lleol i annog cyfleoedd gwaith ac ail-sgilio unigolion e.e. drwy gydweithio gydag MSparc a cholegau lleol.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

Drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen Ail Gartrefi byddwn yn edrych ar ddatrysiadau i liniaru sgil effeithiau ail gartrefi ar ein cymunedau a thrigolion .

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

**Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad Strategaeth Tai 2022-27**

**Rhagfyr 2021**


Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Strategaeth Tai 2022-27.

1. **Cefndir:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Tai ddrafft 2022-27 am gyfnod o 6 wythnos.

Nod Strategol cyffredinol y Strategaeth yw sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallant ei alw'n gartref wedi ei grymuso i gyfrannu at eu cymuned leol a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y byr, canolig a hir dymor drwy'r chwe thema ganlynol:




Yn dilyn yr ymgynghoriad ar ein Strategaeth Dai Interim cyfredol, teimlwyd y dylai'r 6 thema aros yr un fath ar gyfer y Strategaeth 5 mlynedd, ac o ganlyniad roedd Gwasanaethau Tai yn gofyn am farn ar y materion a gweithredoedd sydd wedi eu hadnabod o fewn y Strategaeth Dai 2022-27.

2. **Methodoleg:**

Cafodd cyflwyniad o'r Strategaeth ddrafft ei ddarparu yn y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 14 Mai 2021 | Cyfarfod Grant Tai Cymdeithasol |
| 24 Mai 2021 | Cyfarfod Chwarterol Landlordiaid Tai Cofrestredig |
| 24 Mai 2021 | Panel Iechyd Meddwl |
| 22 Mehefin 2021 | Fforwm Landlordiaid Preifat Ynys Môn |
| 30 Mehefin 2021 | Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai |
| 29 Medi 2021 | Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref |
| 7 Hydref 2021 | Sesiwn Briffio Misol Cynghorwyr |
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Tai Môn |

| | |
|---|---|
| 29 Rhagfyr 2021 | Gweithdy Tai Menter Môn |
| 14 Rhagfyr 2021 | Sesiwn Gwybodaeth Staff Gwasanaethau Tai |

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol
- Datganiad i'r wasg (1 Rhagfyr – mwy o dai cyngor o safon ar y ffordd)
- Tudalennau cyfryngau cymdeithasol Medrwn Môn
- Baner ar dudalen we gorfforaethol


Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn). Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr HSG
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Age Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Shelter Cymru
- Gofal a Thrwsio

### 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad:

Cafwyd 25 ymateb i'r holiadur ar-lein. Mae Siart 1 yn dangos pa grŵp roedd pob ymatebwr yn berchen iddo.




Roedd y rhai a oedd am ddatgan pa sefydliad yr oeddent yn ymateb ar ei ran fel a ganlyn:

- Community councillor
- I'd like to say there's to many people like us has pets and couple like us is very hard to find privately rented house accept pets. People like us has to suffer every privately property should be made aware to have pets.
- Welsh Government funded Digital Inclusion project
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Cymdeithasau Tai

Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur isod.

**Ydi'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Strategaeth?**

Roedd 60% o'r ymatebwyr o'r farn bod Strategaeth Tai 2022-27 wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer cyfnod y strategaeth.




**Oes yna unrhyw faterion tai eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?**


Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl Pynciau / Gwasanaethau lle nad yw'r Strategaeth Dai yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol.

| Testun / Gwasanaeth Topic / Services | Gwasanaeth Cynllunio / Planning Service | Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | Gwarchod bywyd gwyllt /Wildlife conservation |
|---|---|---|---|
| Nifer o sylwadau / No. of responses received | 4 | 1 | 1 |

Mae'r holl sylwadau eraill wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Tai terfynol 2022-27.

**Wrth ymgynghori ar ein Strategaeth Interim 2020-21 fe gadwyd y prif themâu'r un fath. Mae'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod gweithredoedd sydd ei angen o fewn y tymor byr, canolig a hir dymor fydd yn ymateb i'r prif themâu hyn. A ydych yn cytuno gyda rhain?**

Fel y gwelir yn y siart isod, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau y mae angen i'r Adran Dai eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.




Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ol Pynciau / Gwasanaethau

| Testun / Gwasanaeth | Gwarchod bywyd gwyllt /Wildlife conservation |
|---|---|
| Nifer o sylwadau / No. of responses received | 1 |

Mae'r holl sylwadau eraill wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Tai terfynol 2022-27.

**Mae'n ofynnol i ni ystyried a cheisio barn ar effaith ein cynlluniau ar y Gymraeg ac rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iaith. Pa effeithiau y gallai Strategaeth Dai 2022 i 2027 eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg? Sut ydych chi'n meddwl y gellid hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

*Noder na ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddechrau fel rhan o'r ymgynghoriad (ychwanegwyd y cwestiwn ar 5 Tachwedd) ac o ganlyniad ni fydd rhai ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn.*

Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl Pynciau / Gwasanaethau, gyda rhai yn berthnasol i'r asesiad effaith cydraddoldeb ac iaith.

| **Testun / Gwasanaeth** | **Ail Gartrefi / Second Homes** | **Cynnal Cymunedau Cymraeg / Sustaining Welsh communities** | **Gwasnaeth Cynllunio /Planning Services** | **Gwarchod Bywyd Gwyllt / Wildlife conservation** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer o sylwadau / No. of responses received** | 4 | 5 | 1 | 1 |

4. **Canlyniad:**

Cafwyd 25 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid.


Gyda 60% yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf gyda sylwadau a gymerwyd gan y 9 nad oeddent yn cytuno, mae'r fersiwn ddiwygiedig y Strategaeth yn cynnwys rhagor o fanylion / eglurhad ar sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Strategaeth hon.

Roedd 72% o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau y mae angen i'r Gwasanaeth Tai a'i brif bartneriaid eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Roedd 5 ymatebwr wedi cynnwys sylwadau ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd, ac o ganlyniad mae'r rhain wedi eu cynnwys lle y bo'n berthnasol, o fewn y fersiwn ddiwygiedig.


**Canlyniadau Arolwg Anghenion Tai**

**Rhagfyr 2021**


1. A ydych yn chwilio am gartref ar Ynys Môn?





2. Beth yw eich oedran?



3. Beth yw incwm gros (cyn treth) blynyddol eich aelwyd?





4. A ydych ar hyn o bryd yn:




Arall:

- Homeless
- Live with ex partner
- Byw mewn tŷ sydd pia teulu
- Living in a caravan

5. Beth yw eich rheswm am fod eisiau symud tŷ?





Arall:


- Adeiladu tŷ ar y fferm i ymddeol iddo
- angen cartref mwy i fy nheulu - gadael pentref llawn o dai haf,
- Angen symud yn ôl i fy nghynefin i ofalu am rieni
- Build a house on parents land
- Eisiau symud o lle dwi ynddo rŵan
- Housing disrepair
- I fod yn berchen tŷ, ardd mwy
- I want to come home
- I would prefer to own than rent
- Need home of my own as live with daughter and partner
- Rat infestation and black damp mould
- Unable to afford a mortgage and would like to feel secure within my home for years to come
- Want permanent home at affordable rent

6. Ym mha ardal cyngor cymuned ydych yn byw ar hyn o bryd?
Roedd ymatebwyr yn byw mewn eang o ardaloedd cynghorau cymuned ar draws yr Ynys, gyda'r mwyafrif yn byw mewn trefi fel Porthaethwy (10%), Amlwch (8%), Caergybi (6%), Llangefni (6%) a Llanfairpwll (6%).


7. A ydych yn chwilio i:





8. Os ydych yn edrych i brynu, a oes gennych ddiddordeb mewn un o'r cynlluniau canlynol?



9. Os ydych yn edrych i rentu, a oes gennych ddiddordeb mewn un o'r cynlluniau canlynol?





10. Faint o ystafelloedd gwely sydd ei angen?




11. Ym mha ardal cyngor cymuned ydych yn chwilio am gartref?
Roedd ymatebwyr yn chwilio am gartref mewn sawl ardal ar yr Ynys, ond yr ardaloedd mwyaf poblogaidd oedd Porthaethwy (15%) a Llanfairpwll (9%).

12. A ydych ar unrhyw un o'r cofrestrau tai canlynol?




13. Yn eich barn chi, oes rhywbeth yn eich rhwystro rhag dod o hyd i gartref addas?

    Cafwyd ateb ar gyfer y cwestiwn yma gan 56 o'r 66 o unigolion a gwblhaodd yr arolwg, gyda'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod prisiau tai ar yr Ynys yn llawer rhy uchel gyda'r sefyllfa'n cael ei waethygu gan ail gartrefi a chartrefi gwyliau. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd fod diffyg cyflenwad tai ar yr Ynys a bod Polisi Cynllunio yn cyfrannu tuag at hyn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| V0.1 | Hydref 2021 | |
| V0.2 | Ionawr 2022 | Cwestiwn 18 |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Strategaeth Dai CSYM 2022-27 |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Yn disodli'r Strategaeth Dai Interim ar gyfer Ynys Môn |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Mae'r Strategaeth Dai ar gyfer Ynys Môn yn cwrdd â dyletswydd statudol y Cyngor i roi arweiniad o ran gwella gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer yr ynys. Mae'n egluro'r sail tystiolaeth ar gyfer anghenion tai'r sir a'r canlyniadau blaenoriaeth i'r Cyngor o ran cwrdd â'r rhain. |

| **Cam 1: Y Cefndir** | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy’n cael ei asesu? | Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 5 - Pwy yw’r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 6 - Pwy arall sy’n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu’r effaith? | Strategaeth Tai Interim 2021-22<br><br>Mae’r Strategaeth Dai’n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gorfforaethol | |
| 8 - Ydy’r cynnig yn berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy’n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |
| 9 - Ydy’r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | ydi | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Holl ddinasyddion Ynys Môn o bosib, ond yn enwedig y rheini sy'n fregus ac / neu sy'n cael trafferth i gwrdd â'u hanghenion tai ar y farchnad agored. Mae grwpiau y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt yn cynnwys pobl hŷn, pobl gydag anableddau a'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan amddifadedd cymdeithasol.<br><br>Mae partneriaid allweddol o ran darparu tai gwell yn cynnwys darparwyr tai (cymdeithasau tai, landlordiaid preifat), sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth tai a chynorthwyo'r digartref, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd Lleol. |

| **Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd yn cynnig cyfle i bobl aros o fewn eu cymunedau a chyfrannu a defnyddio gwasanaethau lleol sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i bobl fanteisio ar gyfleon addysg lleol, yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu naill ai'n Gymraeg neu ddwyieithog er mwyn caniatau siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ddiofyn |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Credwn y bydd ac yn cyfrannu ar gyflawni gweledigaeth maes blaenoriaeth tri Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26, y Gymuned, sef; 'Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.' |
| Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; | |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
|---|
| **dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . |

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br><br>Ni fyddai'r strategaeth yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.<br><br>Dylai gefnogi Erthygl 8 – hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol drwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | **yndi** |
| | Cymru gydnerth | **yndi** |
| | Cymru iachach | **yndi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **yndi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **yndi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **yndi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **Bydd tai newydd o safon uchel effeithlonrwydd ynni** |

| Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cafodd y Strategaeth ddrafft ei datblygu drwy drafod gyda staff sy'n cynrychioli'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud â thai drwy'r Cyngor Gwahoddwyd yr holl Gynghorwyr Sir i sesiwn brifio ynghyd a chyflwyniad yn Fforwm Tref A Chymuned. |

| Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| | Ymgynghorwyd hefyd gyda nifer o ran ddeiliad allanol er mwyn annog ymateb i'r ymgynghoriad<br><br>Bydd ymatebion holiadur tai a holiadur y Strategaeth yn bwydo fewn i'r rhan hwn |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Gwybodaeth o'r Strategaeth Tai, Prosbectws Tai ac Asesiad o Angen |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Nac oes |



**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru – yn enwedig amcanestyniadau newid poblogaeth | |
| Anabledd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011 | |

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | Strategaeth yn nodi dulliau o gael mynediad i gymorth fel grantiau ar gyfer pobl a theulueoedd sydd ag anabledd | |
| Rhyw | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal | |
| Newid Rhyw | **Positif** | Nid oes gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Positif** | Er nad oes gwybodaeth penodol ar gael ar gyfer y grwp hwn mae Polisi Gosod Cyffredin yn adlewyrchu angenhion aelwyd am dy pan fo merch yn feichiog | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru<br>Dim ond 1.8% o'r boblogaeth ar adeg 2011 o gefndir ethnig nad yw'n wyn. Roedd y nifer hwn wedi tyfu ers cyfrifiad 2001.<br>Mae'r Strategaeth yn cefnogi agenda cydlyniant cymunedol sy'n cynnwys cydnabod pwysigrwydd bod yn rhagweithiol i annog goddefgarwch a pharch, yn enwedig yn wyneb mudo cynyddol o bosibl. | |
| Crefydd neu Gred | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru | |

| Y grwp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Positif** **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru<br><br>Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru<br><br>Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | **Positif** | Gweler Asesiad Effaith Iaith Gymraeg | |
| Hawliau Dynol | **Positif** | Gweler c15 | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |

Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.

**Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)**

| Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol | *Yr effaith debygol | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | **Effaith isel** | Mae'r Strategaeth yn cefnogi fframwaith mesur Safonau Byw: Y gallu i fwynhau safon byw, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal am a cefnogi pan fo angen | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Adolygu ar ôl 2 flwyddyn |



**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

### Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

### Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg**

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;



**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Strategaeth Tai 2022-27** |
| **Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?** | **Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Hydref 2021** |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg



| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Bydd<br>Mae Gwasanaethau Tai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, yn gweithio gyda phartneriaid sydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn comisiynu gwasanaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog |
| 1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Strategaeth hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |
| 1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd, mae adeiladu tai, contractau newydd a phresennol a chomisiynu o wasanaethau yn cynnig a chreu cyfleoedd newydd a hyfforddi |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |
| 2.2 Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |
| 2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | |
| 2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| 3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae'r Polisi yn gyd fynd gyda'n Strategaeth Tai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu aros o fewn eu cymuned ac ar yr Ynys drwy nifer o fentrau gwahanol.<br><br>Yn ôl y Cyfrifiad, gwelwyd gostyngiad o 27.1% yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 (sef oed gweithio), gostyngiad o 8% yn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar deuluoedd ifanc, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn o leiaf cynnal yr iaith. Mae darparu tai sydd ddigon fforddiadwy a sydd o'r math cywir i gyfarch yr angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaeth Lleol (sy'n leoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn. |
| 3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| cyfrwng Cymraeg?<br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |
| 4.2 Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016? | Bydd, gan gynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. Gweler 3.1 uchod |

Tudalen 104

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | |

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Cyfle i bobl gael mynediad i dai a chefnogaeth ar yr Ynys drwy nifer o ymyraethau |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn perthynas a'r strategaeth yn cael ei ddarparu'n Gymraeg yn unol a safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad: | Data Cyfrifiad 2011 am nifer siaradwyr Cymraeg fesul oedran. |

| **6 - Ymgynghori** | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi methu rhywbeth? |
| 6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Ymgynghori ar ein safle a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfnod ymgynghori |
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Cyfeirio at Strategaeth Hybu'r Gymraeg a chryfhau cyswllt gyda'r Strategaeth hwn. |

| **7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| 7.1 Dylech grynhoi'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod |
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14eg o Chwefror 2022** |
| **Pwnc / Testun:** | **Effaith rheoliadau 'Public Service Vehicle Accessibility Regulations 2000' ar werthu seddi gwag ar drafnidiaeth ysgol / coleg** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgs, Cynghorydd R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Huw Percy – Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**<br>**Rhys Hughes – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Iwan Cadwaladr**<br>**2455**<br>**iwancadwaladr@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob ward** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. I'r Awdurdod beidio codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn:
2. a) tan ddechrau fis Hydref 2025 gydag opsiwn o ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall (petai rheoliadau PSVAR yn newid yn ystod y cyfnod yma gallwn ail edrych ar hyn)Bod yr Awdurdod yn parhau gyda'r cynllun seddi gweigion yn seiliedig ar gapasiti ar gyfer y blynyddoedd hynny. Ar gyfer y flwyddyn academaidd yma mae'r Awdurdod wedi cynnig y Cynllun Seddi Gweigion ar fysiau ysgol (dyma'r Cynllun, cyn y flwyddyn academaidd yma a oedd yn gwerthu seddi gwag ar drafnidiaeth ysgol i ddisgyblion anstatudol) am ddim.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r cefndir ac y rhesymeg yn cael ei nodi yn rhan FF.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Byddai peidio codi ffi yn mynd yn erbyn yr hyn sydd wedi ei nodi yn y ddogfen Ffioedd a Thaliadau.

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant o fewn y polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Amlinellir yr effaith ar y gyllideb yn rhan FF. |

| **Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-** | Yn y tymor byr, rhagwelir y byddai'r penderfyniad yma'n lleihau'r costau ychwanegol ar yr Awdurdod. Amlinellir hynny yn rhan FF. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda pwy.** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut**. | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010** | Gyda'r agenda cydraddoldeb byddai'r disgyblion sydd gydag anghenion arbennig yn parhau i gael cludiant tebyg drwy dacsi os ydynt yn gymwys. Amlinellir hynny yn rhan FF. Nid yw'r penderfyniad yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau** | Mae y penderfyniad yn golygu cludiant am ddim ac felly dim effeithiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | **posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | |
| 7 | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Dim yn berthnasol |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh)<br>(gorfodol)** | |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol)** | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro<br>(gorfodol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Mae Adran 40 o Ddeddf Gwahaniaethu (DDA) 1995 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i sicrhau bod Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn hygyrch i bobl anabl. Defnyddiodd y Llywodraeth Genedlaethol y pwerau hyn i sefydlu 'Public Service Vehicle Accessibility Regulations 2000 (PSVAR)'.<br><br>O'r 1af o Ionawr 2020 ymlaen mae PSVAR wedi bod yn berthnasol i gerbydau coets gyda mwy na 22 sedd a mi oedd angen i'r cerbyd fod yn hygyrch i bobl anabl. Wedi dweud hynny, mi oedd yr Adran Drafnidiaeth (Department for Transport) yn cynnig tystysgrif |

eithrio a oedd yn cynnig eithriad o'r rheoliadau hyn tan 1af o Ionawr 2022.

Mae'r rheoliadau yma wedi bod yn y parth cyhoeddus ers nifer o flynyddoedd er mwyn caniatau i weithredwyr uwchraddio eu bysiau i gydymffurfio, ond y gred ledled Cymru a Lloegr ac ymysg Awdurdodau Lleol oedd na fyddai'r rheoliadau yma yn berthnasol i gytundebau bysiau ysgol caeedig.

Yn ystod Haf 2019, cadarnhaodd yr Adran Drafnidiaeth y byddai'r rheoliadau yma yn berthnasol i unrhyw wasanaeth lle mae taliad yn cael ei wneud i deithio, unai os yw'r taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r gyrrwr neu drwy'r Awdurdod Lleol gan fod y gwasanaeth yn dod 'yn berthnasol' ac mae anghenion y Rheoliadau yn dod yn gymwys.

Mae'r anghenion i gerbydau coets yn cynnwys darparu lle ar gyfer cadair olwyn ynghyd â chymorth i ddod ymlaen (boarding aid), seddi blaenoriaeth, canllawiau, botymau cloch, stepiau yn dod allan ac offer i arddangos pen y daith. Er ei bod hi'n bosib gosod yr offer ar gerbydau coets nad ydynt yn rhai hygyrch, byddai gwneud hynny'n arbennig o gymhleth yn dechnegol ac yn eithriadol o ddrud. Mae'r mwyafrif o gytundebau presennol yr Awdurdod gyda chwmnïau cerbydau coets lleol ac nid yw eu cerbydau'n cwrdd â'r fanyleb newydd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y penderfyniad i beidio â chodi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn am y flwyddyn academaidd 2021/22. Roedd hyn yn golygu nad oedd y rheoliadau'n berthnasol ar ôl y 1af o Ionawr 2022.

Ar gyfartaledd mae'r incwm sydd yn cael ei gasglu am werthu tocynnau bws yn £66,000 y flwyddyn (mae'r ffigyrau yma wedi cael eu hamcangyfrif drwy edrych ar flynyddoedd 2014/15 hyd at 2019/20, ni chafodd 2020/21 eu hystyried gan nad oedd yr incwm yn adlewyrchiad teg o flwyddyn arferol). Unwaith eto, rydym wedi holi ambell weithredwr sydd yn gweithredu bysiau ysgol Môn yn draddodiadol. Yn wahanol i'r amcangyfrif blaenorol o gost rhwng £5,000 a £7,000 yn flynyddol, roedd yr amcangyfrif i uwchraddio bws sydd gan weithredwr neu y gost o brynu bws fyddai yn cwrdd â'r anghenion, erbyn hyn rhwng £10,000 a £15,000 y flwyddyn fesul contract. Y gred yw y rheswm dros y cynnydd yma yw fod y bysiau sydd yn cwrdd â'r Rheoliadau yn mynd yn fwy prin sydd yn golygu fod cynnydd yn y pris, yn ogystal yn y misoedd diwethaf mae cynnydd wedi bod ym mhris tanwydd. Yn ei dro, byddai'n rhaid i'r gweithredwyr basio'r gost hon ymlaen i'r Awdurdod am bob cytundeb y byddent yn ei brisio i gwrdd a'r Rheoliadau yma. Mae'r costau yma'n seiliedig ar gostau prynu bysiau a fyddai yn cwrdd â'r rheoliadau yma. Felly gan ddefnyddio'r costau yma ar gyfer y 54 contract presennol, a phetai'r Awdurdod yn tendro'r cytundebau nesaf am gyfnod o hyd at 5 mlynedd, byddai tendro'r cytundebau cyfredol ym Môn yn creu costau ychwanegol o rhwng £540,000 a £810,000 yn flynyddol a chyfanswm o rhwng £2,700,000 a £4,050,000 ar gyfer hyd y contract i gyd (am y cyfnod o hyd at 5 mlynedd). Am yr un cyfnod fe fyddai'r golled incwm taliadau tocynnau i'r Awdurdod oddeutu £360,913. Mae'r swm yma yn cynnwys colled incwm blynyddol am y 5 mlynedd

yma gan gynnwys costau chwyddiant blynyddol.

Hyd arferol cytundeb darparu gwasanaeth bws ysgol yw 5 mlynedd, sydd yn rhoi cyfnod addas o sicrwydd i weithredwyr, yn osgoi gorfod tendro yn flynyddol ac yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu trefniadau pob 5 mlynedd. O ystyried y newidiadau posib yn y maes trafnidiaeth wrth i danwydd amgen ac anghenion ddatgarboneiddio ddatblygu, credir fod hyd at 5 mlynedd yn parhau yn gyfnod addas. Mae adolygu ar ôl 3 blynedd yn rhoi cyfle i'r diwydiant sefydlogi yn dilyn ansicrwydd y cyfnod covid.

Mae'n deg nodi byddai gofyn i weithredwyr ddarparu cerbydau o'r fath yn rhoi y dewis i ddisgyblion sydd ag anableddau i deithio ar fws, ond mewn sefyllfaoedd tebyg mae'r Awdurdod yma ac Awdurdodau eraill ledled Cymru yn darparu trafnidiaeth addas drwy dacsi beth bynnag ac hynny o ddrws cartref y disgyblion i iard y sefydliad addysgol. Petai disgybl ag anableddau, neu deulu disgybl ag anableddau yn dymuno i'r plentyn deithio ar fws i'r sefydliad Addysg, ni fyddai hynny'n bosibl o ddrws y cartref, gan amlaf mi fyddai hynny'n golygu taith at y safle bws agosaf. Gan ystyried tirwedd Môn ac ardaloedd gwledig yr Ynys, nid yw plentyn wastad yn disgwyl mewn safle bws pwrpasol, weithiau mae'n rhaid iddynt ddisgwyl ar fin y ffordd, hynny yw mewn safle di-goncrid ac felly er byddai cerbyd o'r fath yn cael ei ddarparu nid yw'r isadeiledd ar gael mewn sawl lleoliad i gefnogi'r ddarpariaeth. Gallai hynny yn ei dro arwain at gost ychwanegol.

Mae cynnig cludiant bws am ddim yn cydfynd gyda gweledigaeth trafnidiaeth y Llywodraeth – Y Llwybr Newydd – gan y bydd yn arwain at lai o gerbydau ar ein ffyrdd ac yn gwneud cludiant ysgol ar fws yn fwy deniadol.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd peidio â chodi ffi yn golygu y bydd rhagor o ddisgyblion yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22 prin iawn fu'r cynnydd yn y galw ac mae camau mewn lle rhwng Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Gwasanaeth Dysgu er mwyn rheoli y risg o gam-ddefnydd

Felly i gloi, dyma grynhoi:

- yr argymhelliad yw nad yw'r Awdurdod yn codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn tan ddechrau fis Hydref 2025 fan gyntaf (petai rheoliadau PSVAR yn newid yn ystod y cyfnod yma gallwn ail edrych ar hyn).

- byddai peidio â chodi ffi yn golygu ein bod yn gallu gofyn i weithredwyr bws ddarparu cerbydau sydd ddim mor gostus i'w prynu pan ddaw'r trefniadau presennol gyda'r gweithredwyr hynny i ben ar y 30ain o Fedi 2022. Ni fyddai'r bysiau hynny'n cyrraedd safonau PSVAR ond ni fyddai'n rhaid iddynt oherwydd ni fyddai'r Awdurdod yn codi ffi teithio. Mae'n rhaid cofio mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol ar y diwydiant yma lle mae sefyllfa sawl gweithredwr yn fregus beth bynnag, byddai gofyn i weithredwyr ddarparu cerbydau tebyg yn ychwanegu at eu baich ariannol mewn cyfnod lle mae rhan sylweddol o farchnad rhai gweithredwyr lleol wedi diflannu'n llwyr er enghraifft cludo trigolion lleol ar dripiau o fewn y

Ddeyrnas Unedig neu dramor. Mae risg na fyddai cwmniau yn gallu prynu bysiau addas ac ansicrwydd dros allu darparu gwasanaeth.

- bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu tacsis er mwyn darparu cludiant i ddisgyblion sydd ag anableddau.

- ar hyn o bryd, mae’r trefniadau presennol yn dod i ben ar y 30ain o Fedi 2022. Yr argymhelliad yw gofyn am brisiau am gytundebau hyd at 5 mlynedd y tro nesaf, yn dod i ben ar 30ain o Fedi 2027, bydd y cytundebau yma yn cynnwys opsiwn i’r Awdurdod adnewyddu yn flynyddol am 2 flynedd wedi i’r 3 mlynedd cyntaf ddod i ben. Y rhesymeg am hynny yw y gall newidiadau sylweddol ddigwydd yn y maes yma yn y blynyddoedd nesaf wrth i’r angen am ddatgarboneiddio ddod yn fwy amlwg ac wrth dendro am 3 mlynedd yn y lle cyntaf gyda’r opsiwn i’w adnewyddu am y ddwy flynedd wedyn, nid yw’r Awdurdod wedi ei ymrwymo i gytundeb am gyfnod rhy ffaith ac fe fyddai yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i weithredwyr.

- gan na chodir ffi teithio bydd y broses o adolygu ceisiadau yn parhau er mwyn ceisio sicrhau mai dim ond disgyblion cymwys fydd yn cael teithio.

- gan ystyried ffigyrau traddodiadol byddai’r golled incwm oddeutu £360,913 am hyd y contract, ac rydym yn argymell bod y golled incwm yn cael ei ariannu o gostau canolog gan mai rheoliadau Llywodraeth Genedlaethol yw’r newidiadau yma ac nid penderfyniad gan y Gwasanaeth Dysgu.

- os yw’r argymhelliad i beidio codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr addysg bellach Môn yn cael ei dderbyn, ac fel rhan o adolygu prosesau rhwng y Gwasanaeth Dysgu a’r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, yna bydd cyfathrebu buan rhwng y Gwasanaeth Addysg a Phenaethiaid Ysgolion Môn ynglyn ac oblygiadau teithio dewis ysgolion Uwchradd all-ddalgylch yn rhan o becynnau gwybodaeth at rieni.

- mae’r Cyngor yn ystyried buddsoddi mewn meddalwedd a chardiau unigol er mwyn rheoli Iechyd a Diogelwch a niferoedd ar fysiau ysgol. Nid yw’r argymhelliad yma yn newid yr angen yma.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith Strategol; Cyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith; Pwyllgor Gwaith ac Cyngor Sir Llawn** |
| Dyddiad: | **24.01.2022 – (Pwyllgor Gwaith Strategol)<br>31.01.2022 – (Pwyllgor Gwaith - Busnes)<br>14.02.2022 – (Pwyllgor Gwaith)<br>10.03.2022 – (Cyngor Sir (llawn)** |
| Pwnc / Testun: | **Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019; trefniadau gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Rhentu Doeth Cymru** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Richard Dew** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Trystan Owen<br>Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd<br>2835<br>trystanowen@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i holl aelodau** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhellir:**

1. **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn awdurdodi swyddogion perthnasol i arfer, yn ôl yr angen, gweithredu'r pwerau gorfodi statudol hynny o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 ar ran y Cyngor yma.**

2. **Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ddirprwyo swyddogion Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd i gymryd camau priodol ar ran y Cyngor hwn i orfodi darpariaethau'r Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, drwy'r gwasanaeth a elwir yn Rhentu Doeth Cymru.**

Crynodeb Gweithredol:

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (yr Ddeddf) yn ei gwneud yn drosedd i fynnu bod tenant neu ddeiliad contract yn gwneud unrhyw daliad sydd ddim yn cael ei nodi fel 'taliad a ganiateir' yn y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys gwaith gweinyddol sydd ynghlwm â chreu neu adnewyddu contract meddiannaeth, ffioedd ymadael, cynnal ymweliadau i edrych ar eiddo a gwirio geirdaon.

Mae’r Ddeddf yn diffinio taliadau a ganiateir y gall asiantau gosod a landlordiaid sy’n rheoli eu heiddo eu hunain ofyn amdanynt fel:

- rhent
- blaendaliadau cadw
- blaendaliadau sicrwydd
- taliadau mewn cysylltiad â darparu cyfleustodau (e.e. treth gyngor, teledu, trwydded a gwasanaethau cyfathrebu)
- taliadau yn achos diffygdaliad (os yw tenant yn gwneud rhywbeth o’i le e.e. colli allweddi, talu rhent yn hwyr)

Bydd grym gan awdurdod gorfodi i roi hysbysiadau cosb penodol. Bydd gan awdurdodau lleol y gallu i orfodi gofynion y Ddeddf, ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru – gwasanaeth a gynhelir gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Cyngor Caerdydd) fel yr awdurdod trwyddedu lleol – gan fod y ddeddf yn awdurdodi awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal i wneud y gwaith gorfodaeth.

Dynodwyd Cyngor Caerdydd fel awdurdod trwyddedu dros Gymru gyfan gan Weinidogion Cymru yn 2015, o dan Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015.

Er hynny, nid oes modd i Gyngor Caerdydd gymryd unrhyw gamau gorfodaeth heb ganiatâd ysgrifenedig gan y awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd mae’r ddeddfwriaeth hon tu allan i gwmpas y ddirprwyaeth bresennol. Gofynnir i’r Cyngor llawn nodi gweithrediad y ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ect.) (Cymru) 2019, a diwygio’r cynllun dirprwyo i swyddogion drwy ddirprwyo swyddogaethau’r Ddeddf yn arferadwy gan Gyngor Sir Ynys Môn i’r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Gofynnir hefyd i ddirprwyo’r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i ddirprwyo ymhellach i swyddogion Cyngor Caerdydd drwy ei wasanaeth a elwir yn Rhentu Doeth Cymru (RhDC) waith gorfodi'r Cyngor hwn dan ddarpariaethau’r Ddeddf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pwerau gorfodi statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol.

Bydd Rhentu Doeth Cymru’n dim ond yn cymryd camau gorfodi yn lle Awdurdodau Lleol o dan amgylchiadau cyfyngedig canlynol:

- pan fo Rhentu Doeth Cymru’n yn cynnal archwiliad ar asiant gosod a rheoli ac yn canfod tystiolaeth o beidio â chydymffurfio
- pan fo Rhentu Doeth Cymru’n cymryd camau gorfodaeth am droseddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (e.e. heb gofrestru â Rhentu Doeth Cymru) ac yn canfod achosion o dramgwyddo rheolau ynghylch ffioedd tenantiaid
- amgylchiadau eithriadol eraill i’w cytuno fesul achos gyda’r Awdurdod Lleol perthnasol

Mae hon yn ddeddf newydd ac felly angen trefniadau o’r newydd i ddelio â’r gofynion.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ystyriwyd yr opsiwn o orfodi darpariaethau'r Ddeddf ein hunain yn hytrach na defnyddio Cyngor Caerdydd.<br><br>Fodd bynnag, bydd rhannu'r gyfrifoldeb gorfodi gyda Rhentu Doeth Cymru yn caniatáu i ni weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth. Mae Rhentu Doeth Cymru wedi derbyn pwerau dirprwyedig gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Bro Morgannwg. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gan mai'r argymhelliad yw diwygio'r Cynllun dirprwyo, yna mae honno'n swyddogaeth a gedwir yn ôl i'r Cyngor llawn, ond yn amodol ar argymhelliad blaenorol gan y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Rhesymau am benderfyniadau (1 a 2 bocs A), sicrhau bod y pwerau gorfodi statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Yndi – 3.2.3.1 o'r Cyfansoddiad |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae baich rheoleiddio ychwanegol y ddeddfwriaeth hon wedi bod yn destun asesiad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir y bydd y gosb benodedig (£1000 fesul trosedd) neu ddyfarniadau costau llys yn cwrdd â'r costau ariannol a geir. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Do – Rhentu Doeth Cymru. Mae Rhentu Doeth Cymru yn wasanaeth sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd fel yr awdurdod trwyddedig dros Gymru. Dynodwyd Gyngor Caerdydd fel yr awdurdod trwyddedu gan Weinidogion Cymru dros Gymru gyfan yn 2015 |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae Rhentu Doeth Cymru yn ddarostyngedig i'r safonau sydd wedi eu gosod ar Gyngor Caerdydd dan ddarpariaethau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Felly, yn sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth orfodi'r ddeddfwriaeth yma.<br><br>Mae'r trywydd gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon yn targedu landlordiaid tai rhent preifat ac asiantau gosod tai yn benodol. Felly, mae'r effaith ar boblogaeth ehangach Ynys Môn yn llai arwyddocaol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | **Derbyn yr argymhelliad** |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | **Derbyn yr argymhelliad** |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | **Dim sylw** |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Dim |

**Ff – Papurau Cefndir** (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

**1. Cefndir**

1.1 Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 i rym ar 5 Mai 2019. Ers 1 Medi 2019, mae asiantiaid gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain yn cael eu hatal rhag codi unrhyw ffioedd cyn, yn ystod ac ar ôl tenantiaeth oni bai eu bod yn cael eu heithrio yn benodol yn y Ddeddf. Mae taliad o'r fath sy'n cael ei wahardd yn cael ei alw'n 'daliad gwaharddedig'. Mae asiantiaid gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain yn cael eu gwahardd hefyd rhag ei gwneud yn ofynnol i denant gymryd benthyciad neu ymrwymo i gontract am wasanaethau.

1.2 Gall y Cyngor neu Rhentu Doeth Cymru gymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â'r gofynion newydd hyn (fel yr Awdurdod Trwyddedu Sengl). Byddant yn cyfrannu at brofiad tecach a mwy tryloyw ar gyfer tenantiaid sy'n dibynnu ar y sector rhent preifat. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tai Lleol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion am sut y gellir adennill taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw. Bydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei rhoi ar wefan yr awdurdod i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd honno.

1.3 Mae unrhyw daliadau ac eithrio'r rhai hynny a restrir uchod yn cael eu gwahardd. Pan fo unrhyw daliad rhent, ar gyfer un cyfnod, yn fwy na swm y rhent sy'n daladwy mewn unrhyw gyfnod arall yn ystod y contract, mae'r gwahaniaeth ('amrywiad ar y rhent') yn cael ei ystyried yn daliad

gwaharddedig hefyd. Ceir eithriad pan fo'r landlord a'r tenant yn cytuno ar 'amrywiad a ganiateir'.

1.4 Mae 'blaendaliadau cadw' yn cael eu cyfyngu i un wythnos o rent a rhaid eu had-dalu o fewn saith niwrnod ar ôl cytuno ar y contract. Os na chytunir ar gontract tenantiaeth, mae'n rhaid ad-dalu'r blaendal, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig, o fewn 15 diwrnod. Ni fydd unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â 'blaendaliadau sicrwydd'.

## 2. Prif Faterion i'w Hystyried

2.1 Mae troseddau'n cael eu cyflawni pan fo landlordiaid a/neu asiantiaid yn methu â chydymffurfio â'r Ddeddf. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth hon mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth hon, gyda'r grym i rannu'r cyfrifoldeb â Rhentu Doeth Cymru. Mae hwn yn ddarn newydd o ddeddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth i warchod tenantiaid ac ar hyn o bryd nid yw o fewn cwmpas y ddirprwyaeth sydd eisoes yn bodoli. Gofynnir i'r Cyngor Llawn ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn sicrhau bod y pwerau statudol perthnasol o dan y Ddeddf yn cael eu dirprwyo i'r swyddogion perthnasol a fod yr pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r argymhelliad yma. Yn ogystal, mae'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn awr wrthi'n gwneud cynlluniau, yn unol â'u trefniadau cyfansoddiadol, i awdurdodi Rhentu Doeth Cymru i orfodi darpariaethau'r Ddeddf.

2.2 Awdurdodau Lleol sy'n bennaf gyfrifol am orfodi'r gofynion ac mae dyletswydd arnynt i hysbysu Rhentu Doeth Cymru os ydynt yn cymryd camau gorfodi. Bydd dyletswydd ar Rhentu Doeth Cymru hefyd i hysbysu Awdurdodau Lleol os ydynt yn rhoi hysbysiad cosb benodedig neu'n erlyn o dan y Ddeddf newydd. Mae dau opsiwn gorfodi ffurfiol:

2.3 Rhoi hysbysiad cosb benodedig o £1,000, a byddai talu'r ddirwy yn golygu bod modd osgoi erlyniad. Defnyddir derbynebau talu'r gosb benodedig ar gyfer y swyddogaeth orfodi hon.

2.4 Erlyn am droseddau o dan y Ddeddf, a allai arwain at ddirwy nad yw'n ddarostyngedig i isafswm ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon (ac eithrio am fethiant i ddarparu gwybodaeth sy'n ofynnol drwy hysbysiad statudol, ac mewn achos o'r fath gellir gosod dirwy hyd at lefel 4 ar y raddfa safonol).

## 3. Sut mae'r cynigion yn cyfrannu at ein Hamcanion Llesiant?

3.1 Mae'r Sector Rhent Preifat wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddegawd ddiwethaf a bydd yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y farchnad

dai yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd a rhagwelir yn y boblogaeth a'r duedd tuag at gynnydd hyd yn oed yn fwy yn nifer yr aelwydydd dros gyfnod amser. Mae ymchwil wedi nodi bod ffioedd asiantiaid gosod wedi bod yn cynyddu'n sylweddol dros amser, a'u bod felly'n debygol o greu mwy o rwystr i ddarpar denantiaid yn y dyfodol nag y maent ar hyn o bryd. Bydd gwneud y Sector Rhent Preifat yn ddaliadaeth o ddewis sy'n ddeniadol ac yn fforddiadwy yn helpu i ymdrin â'r galw cynyddol am dai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

3.2 Mae ymchwil ddiweddar wedi dangos ei bod yn arbennig o anodd i bobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ganfod yr arian angenrheidiol i sicrhau llety yn y sector rhent preifat. Bydd y ddeddfwriaeth yn cefnogi gwaith digartrefedd trwy ei gwneud yn haws i bobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar lwmp swm mawr i gael mynediad i'r sector rhent preifat.

3.3 Mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio, mae gan y Cyngor gysylltiadau cryf sydd wedi hen sefydlu â Rhentu Doeth Cymru sy'n gallu gweithio ar y cyd i sicrhau cyfundrefn orfodi fwy effeithiol i warchod defnyddwyr ac mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynnig dull integredig ar gyfer delio â chynnydd yn y galw am dai yr ydym yn disgwyl ei weld yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

## 4. Ystyriaethau'n ymwneud ag Adnoddau ac Agweddau Cyfreithiol

### Cyflogaeth

4.1 Ni ragwelir y bydd angen unrhyw adnoddau staff ychwanegol ar hyn o bryd. Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi ar sail adweithiol yn dilyn cwyn ac yn cael ei blaenoriaethu'n unol â hynny, neu fel rhan o ymchwiliad achos parhaus.

### Cyfreithiol (yn cynnwys Cydraddoldeb)

4.2 Yr awdurdod tai lleol a'r awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal, i bwrpasau'r ddarpariaeth berthnasol a gynhwysir yn 'y Ddeddf', yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas ag ardal yr awdurdod tai lleol.

4.3 Ni chaiff awdurdod trwyddedu sydd, yn rhinwedd y ddarpariaeth berthnasol a gynhwysir yn 'y Ddeddf', yn awdurdod gorfodi ar gyfer ardal yr awdurdod tai lleol, ymarfer unrhyw swyddogaeth awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r ardal honno, na dwyn achosion llys o dan adran 19 'y Ddeddf' mewn perthynas â'r ardal honno, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod tai lleol ar gyfer yr ardal honno.

4.4 Gellir rhoi caniatâd cyffredinol o dan ddarpariaeth berthnasol 'y Ddeddf' neu ganiatâd mewn perthynas ag achosion neu swyddogaethau penodol.